

Newid y System: Gweddnewid gwasanaethau cyhoeddus trwy ddefnyddio digidol yn well

Adroddiad gan banel arbenigol ar gyfer Llywodraeth Cymru

Newid y System: Gweddnewid gwasanaethau cyhoeddus trwy ddefnyddio digidol yn well	1
Adroddiad gan banel arbenigol ar gyfer Llywodraeth Cymru	1
Cyflwyniad	3
Crynodeb gweithredol	5
Yr achos dros newid	7
Beth yw'r problemau a pha waith sydd wedi'i wneud yn barod?	8
Beth fydd yn digwydd os na fyddwn ni'n gwneud y gwaith hwn?	8
Yr angen am arweinyddiaeth ddigidol i ganolbwyntio ar anghenion defnyddwyr	9
Yr angen am fecanweithiau ar gyfer newid	10
Yr angen am newid diwylliannol – ystyried digidol fel mater system gyfan	11
Felly beth sydd angen i ni ei wneud?.....	11
Argymhellion a chymau gweithredu allweddol	14
Argymhelliad Un: Dylunio gwasanaethau cyhoeddus yn seiliedig ar anghenion y defnyddiwr	15
Argymhelliad Dau: Sefydlu arweinyddiaeth ddigidol glir yng Nghymru.....	19
Argymhelliad Tri: Datblygu a chyflwyno safonau gwasanaeth digidol.....	23
Argymhelliad Pedwar: Nodi bylchau mewn sgiliau a gallu a datblygu cynllun i gau'r bylchau hynny.....	25
Argymhelliad Pump: Cyflwyno rheolaethau gwariant.....	29
Argymhelliad 6: Cytuno ar amserlen glir ac uchelgeisiol ar gyfer newid, gan ddangos cyflymder ac ehangder	30
Atodiad 1: Y siwrnai ddiweddar	34

Adolygiad David Jones.....	34
Cyflawni.....	35
Arweinyddiaeth.....	35
Sgiliau.....	36
Buddsoddiad.....	36
Adroddiad Socitm	38
Argymhellion tymor byr.....	39
Ystyriaethau tymor hir.....	40
Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru	42
Adolygiad Seneddol o Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru	44
Cymru Iachach: ein cynllun iechyd a gofal cymdeithasol	47
Adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus.....	49
Arweinyddiaeth a Llywodraethu	49
Cydnerthedd.....	50
Cyllid a Chaffael	51
Gallu a Galluogrwydd.....	52
Argymhellion	52
Atodiad 2: Cyfarfodydd.....	54
Atodiad 3: Datganiad Digidol Lleol	55
Cyflwyniad.....	55
Y cyfle hwn	55
Ein huchelgais.....	55
Ein hymrwymiaidau	56

Cyflwyniad

Mae atebion digidol i broblemau wedi dod yn arfer cyffredin, ond mae bwch yn dechrau ymddangos rhwng disgwiliadau digidol dinasyddion a realiti gwasanaethau cyhoeddus Cymru.

Pan oedd fy mab yn derbyn gofal rheolaidd gan feddyg ymgynghorol, gofynnais a oedd modd i mi osgoi'r siwrnai car ac iddo osgoi colli bore yn yr ysgol trwy ddefnyddio Skype i gysylltu â'r clinig. Yr ateb oedd na.

Pan welais i nyrs leol ynglŷn â chyflwr ar y croen, gofynnwyd i mi wneud apwyntiad newydd gyda meddyg teulu er mwyn iddo dynnu ffotograff i'w anfon i ffwrdd i gael ei archwilio. "Mae'n iawn, galla i dynnu'r ffotograff fy hun a'i anfon atoch chi trwy WhatsApp", dywedais. "Dwi ddim yn poeni am breifatrwydd, dwi wedi darllen nad yw'r Gwasanaethau Diogelwch hyd yn oed yn gallu hacio WhatsApp". Yr ateb oedd na. Ers hynny, rydw i wedi clywed am rai meddygon teulu sy'n datblygu eu hadnoddau digidol eu hunain ond, fel bob amser, mae'r dull hwn o weithio yn anghyson.

Ar ôl cael mynediad at wasanaeth meddyg teulu preifat trwy ap ar fy ffôn clyfar o fewn 8 munud i wirio bod y gwasanaeth hwnnw ar gael, mae'n rhwystredig gorfod treulio 30 munud ar y ffôn yn ceisio cael apwyntiad ym meddygfa deulu leol y GIG.

Dim ond ambell hanesyn yn seiliedig ar rai o'm profiadau personol i yw'r rhain, ond maen nhw'n dangos bod y disgwiliadau digidol sydd wedi'u seilio ar ein profiadau bob dydd o Google, Amazon a Facebook yn gwrthdaro â'r realiti o ran y ffordd mae gwasanaethau cyhoeddus yn gweithio.

Wrth gwrs, mae yna resymau cymhleth pam mae'r system fel y mae ym mhob un o'r achosion hyn, ond y thema gyffredin yw nad yw ein gwasanaethau yn aml wedi'u dylunio gydag anghenion y defnyddiwr terfynol mewn golwg.

Y cylch gorchwyl ar gyfer gwaith y panel hwn ar drawsnewid ein gwasanaethau cyhoeddus oedd "darparu cyngor a her allanol ar weddnewid gwasanaethau cyhoeddus trwy ddefnyddio adnoddau digidol yn well, a gwneud argymhellion i helpu i lywio'r camau nesaf".

Dyma ein hadroddiad cychwynnol, ac mae'n cael ei gyflwyno i Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip, Julie James, ynghyd ag Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Vaughan Gething, ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus, Alun Davies.

Rwyf wedi bod yn ddigon ffodus i gael help Paul Mathews, Prif Weithredwr Cyngor Sir Fynwy; Anne Marie Cunningham, meddyg teulu a Chyfarwyddwr Meddygol Cyswllt Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru; Mark Wardle, Niwrolegydd Ymgynghorol a Chadeirydd Bwrdd Safonau Technegol GIG Cymru; Victoria Ford, Cyfarwyddwr Perago-Wales, cyn-Bennaeth Cyfathrebu yn y DVLA a oedd yn rhan o dîm Gwasanaeth Digidol y Llywodraeth (GDS); Dominic Campbell, Prif Swyddog Meddygol dros dro Homes England a Phrif Swyddog Gweithredol FutureGov; a Sally Meecham, sydd â phrofiad eang o gyflawni newid digidol, yn fwyaf diweddar fel Prif Swyddog

Gweithredol GDS. Rydym wedi cael cymorth yn y gwaith hwn gan Brif Swyddog Digidol Llywodraeth Cymru, Caren Fullerton, a'i thîm: Anna Bartlett-Avery a Red Strivens.

Fe wnaethom ni gytuno y byddai ein hadroddiad cychwynnol yn canolbwyntio ar fod yn sbardun ar gyfer camau gweithredu cychwynnol. Fe wyddom llawer o'r hyn sydd yn yr adroddiad hwn yn barod. Mae'n bryd i ni nawr weithredu.

Lee Waters, AC Llanelli
Rhagfyr 2018

Crynodeb gweithredol

Mae mwy i newid digidol na thechnoleg. Mae'n golygu newid diwylliant. Mae'n golygu bod yn agored. Mae'n golygu defnyddio data i ddatrys problemau. Yn hytrach na chynllunio gwasanaethau o safbwynt yr hyn mae bwrdd iechyd neu awdurdod lleol yn *credu* sydd ei angen ar ddinesydd, mae dull digidol yn golygu dylunio gwasanaethau sy'n diwallu anghenion y *defnyddiwr terfynol*.

Mae gormod o bobl yn cymysgu digidol a TG ac yn meddwl mai'r 'defnyddiwr' yw'r staff sy'n gweinyddu'r gwasanaethau cyhoeddus. Yn hytrach, mae angen i ni wahaniaethu rhwng anghenion defnyddwyr y systemau a ddefnyddir i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus ac anghenion defnyddwyr terfynol gwasanaethau cyhoeddus.

Mae cyfres o adroddiadau dros y tair blynedd diwethaf wedi rhoi darlun cyson o wasanaethau cyhoeddus Cymru yn methu â manteisio ar botensial dulliau digidol i wella canlyniadau i'r bobl sy'n defnyddio gwasanaethau cyhoeddus, gan ddarparu arbedion cost i'r sector cyhoeddus.

Rydym yn gwybod digon i wybod bod angen i ni newid. Mae'n bryd i ni weithredu bellach.

Mae angen Strategaeth Ddigidol newydd ar Gymru, arweiniad clir gan Weinidog a Phrif Swyddog Digidol gyda mandad dros newid i weithio ar draws y gwasanaethau cyhoeddus.

Mae gan Lywodraeth Cymru Brif Swyddog Digidol mewnol yn barod, ac mae achosion yn cael eu datblygu ar gyfer Prif Swyddog Digidol ar gyfer Llywodraeth Leol Cymru a Phrif Swyddog Digidol ar gyfer Iechyd. Rydym yn cefnogi'r datblygiadau hynny, ond yn teimlo'n gryf bod angen Prif Swyddog Digidol ar gyfer Cymru i gydgyssylltu'r ymdrechion ac arwain yr achos dros newid. Mae angen i'r rolau arwain hyn gael eu hategu gan dîm o arbenigwyr digidol y gellir eu lleoli ar draws ffiniau gwasanaeth i ddatrys problemau a rhannu profiadau.

Mae ein hargymhellion yn canolbwyntio ar nodi'r heriau cychwynnol hyn a darparu'r sgiliau a'r gallu i sicrhau bod newid yn digwydd. Rydym wedi gwneud chwe argymhelliad:

1. Dylunio gwasanaethau cyhoeddus yn seiliedig ar anghenion y defnyddiwr
2. Sefydlu arweinyddiaeth ddigidol glir yng Nghymru
3. Datblygu a chyflwyno safonau gwasanaeth digidol
4. Nodi bylchau mewn sgiliau a gallu a datblygu cynllun i gau'r bylchau hynny
5. Creu dull o greu cymhelliant a rheoli gwariant
6. Cytuno ar amserlen glir ac uchelgeisiol ar gyfer newid, gan ddangos cyflymder ac ehangder

O'n hargymhellion, mae gennym dri cham brys ar gyfer Llywodraeth Cymru:

- Penodi Gweinidog i fod yn bennaf cyfrifol am Ddigidol

- Cytuno ar ddatganiad digidol yn ymrwmo i ffyrdd newydd o weithio ar draws gwasanaethau cyhoeddus Cymru
- Creu Prif Swyddog Digidol ar gyfer Cymru o fewn chwe mis

Yr achos dros newid

Mae llawer o enghreifftiau o arfer da ledled Cymru ond, yn aml, mae'r gwaith hwn yn dameidiog ac nid yw gwaith llwyddiannus yn cael ei gyflwyno'r fwy eang. Mewn rhai achosion, mae gwaith yn cael ei ddyblygu pan ddylai fod wedi'i rannu, a gall arloesedd gael ei fygu yn hytrach na'i annog.

Enghreifftiau o arfer da:

- Mae awdurdod treth newydd Cymru, [Awdurdod Cyllid Cymru](#), wedi creu system dreth ar-lein yn y cwmwl, sy'n galluogi gweithwyr cyfreithiol proffesiynol i ffeilio a llenwi ffurflenni ar-lein gan ddefnyddio dull iteraidd hyblyg. Yn hytrach na pharhau i ddefnyddio systemau 'etifeddol' Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi, fe gymeron nhw eu hamser i asesu'r data a deall anghenion defnyddwyr ac, ar sail hynny, fe wnaethon nhw benderfynu symud i system newydd a dechrau eto. Maen nhw'n parhau i iteru'r system trwy ddefnyddio adborth gan ddefnyddwyr. Fe wnaethon nhw gofleidio digidol fel diwylliant yn hytrach na thechnoleg yn unig, gan gyfaddef i gamgymeriadau a dysgu ohonynt.
- Yn ddiweddar, mae Cyngor Sir Penfro wedi cyflwyno gwasanaeth negeseuon testun i atgoffa pobl pryd mae eu biniau'n cael eu casglu, ac maen nhw ar fin lansio gwasanaeth negeseuon testun i alluogi pobl i ofyn cwestiynau am gasgliadau sbwriel cyn y Nadolig.
- Mae Gwasanaeth Arennol y De-orllewin wedi [gwednewid y gwasanaeth digidol a ddarperir i gleifion arenol](#), gan gynnwys e-ragnodi, negeseuon testun atgoffa a mynediad cleifion at eu canlyniadau prawf a'u cynlluniau triniaeth. Mae hyn yn galluogi cleifion i reoli eu cyflyrau eu hunain. Mae wedi arbed amser ac arian, ynghyd â gwella canlyniadau cleifion a phrofiad cleifion. Newidiodd y tîm system o nodiadau papur i gofnod electronig cynhwysfawr, gan olygu bod modd cynhyrchu llythyrau safonol a phresgripsiynau electronig heb orfod gwneud hynny â llaw.
- Mae Hwb Llywodraeth Cymru yn darparu mynediad ar-lein at adnoddau addysgu i bob disgybl ac athro yng Nghymru ac, erbyn hyn, mae'n cael ei lwyr reoli'n fewnol. Mae dull mewngofnodi sengl yn galluogi disgyblion ac athrawon i gael mynediad at fwy a mwy o adnoddau digidol ar-lein, megis Microsoft Office 365 a Google for Education. Fodd bynnag, ychydig iawn o sylw sydd wedi'i roi i sut i gyflwyno'r gwaith yn ehangach ar draws rhannau eraill o sector cyhoeddus Cymru. Mae gwaith tebyg eisoes wedi'i wneud yn y GIG. Mae gan y gwaith o nodi'r cyfleoedd i weithio ar draws gwasanaethau sector cyhoeddus y potensial i drawsnewid y ffordd mae ein gwasanaethau'n cael eu darparu.
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg oedd y cyntaf yng Nghymru i dreialu cofnod a reolir gan y claf, a oedd yn integreiddio gyda'r cofnod data cenedlaethol. Mae'r cynllun [Patients Know Best](#) yn galluogi cleifion i anfon negeseuon at eu tîm clinigol yn gofyn am gyngor, ynghyd â chael mynediad at eu gwybodaeth gofal eilaidd. Mae hwn yn gofnod a reolir gan y claf sy'n cynnwys gwybodaeth a gedwir gan y GIG (e.e. canlyniadau profion gwaed a llythyrau gan yr ysbyty at eu meddyg teulu) y gall cleifion ychwanegu ati. Yna, gallant rannu eu cofnod yn ddiogel gyda chlinigwyr eraill, ynghyd â theulu a gofalwyr.

- Mae GIG Cymru wedi comisiynu ymchwil i weddnewid gwefannau sy'n cael eu defnyddio ledled y GIG. Defnyddiodd yr ymchwil bob math o ddulliau, gan ddod i'r casgliad bod y gwefannau presennol yn anodd i ddefnyddwyr eu defnyddio a dod o hyd i'r wybodaeth sydd ei hangen arnynt. Mae'r data a gynhyrchwyd wedi'i ddefnyddio i ddatblygu safonau dylunio a chynnwys ar gyfer rhaglen genedlaethol a fydd yn ailwampio gwefannau ar draws GIG Cymru.
- Mae Cyngor Castell-nedd Port Talbot wedi gallu ailgyfeirio adnoddau i'r rheng flaen trwy leihau nifer yr ymholiadau ffôn y mae'n ymdrin â nhw 55% ers 2009 trwy symud gwasanaethau ar-lein.

Beth yw'r problemau a pha waith sydd wedi'i wneud yn barod?

Mae rhai pethau da yn digwydd, ond eithriadau yw'r rhain – mae hyn yn hynod rwystredig i lawer o weision cyhoeddus sydd eisiau defnyddio technoleg fodern i ddarparu gwasanaethau gwell a mwy effeithlon.

Un o'r pethau mwyaf rhwystredig am ysgrifennu'r adroddiad hwn oedd darllen yr adroddiadau eraill sydd wedi'u cyflwyno i Lywodraeth Cymru dros y tair blynedd diwethaf, sydd wedi cyflwyno darlun cyson: mae [adolygiad David Jones o lywodraeth leol yng Nghymru](#) yn 2015, [adroddiad SOCITM](#), y gymdeithas Rheolwyr TG mewn llywodraeth leol, ar allu awdurdodau lleol ym mis Ebrill 2017; yr [Adolygiad Seneddol o Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru](#) ac adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ar [Systemau Gwybodeg yn GIG Cymru](#), a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2018, a'r adroddiad diweddar gan Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad ar [Systemau gwybodeg GIG Cymru](#) i gyd yn cyflwyno barn gyson ar y materion sy'n wynebu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

Rydym wedi crynhoi pob adroddiad yn yr atodiad i'r adroddiad hwn, a byddwn yn eich annog i fwrw golwg arnynt (Atodiad 1).

Maent yn cyflwyno darlun tebyg iawn o wasanaethau yn methu â chyrraedd eu potensial o ran darparu ffyrdd rhwydd i'r cyhoedd ddefnyddio gwasanaethau bob dydd. Mae'r defnydd eang o beiriannau ffacs ar draws y GIG, a'r ffaith bod hyd yn oed yr awdurdodau lleol lleiaf yng Nghymru yn defnyddio dros 100 o systemau ar wahân i ddarparu gwasanaethau, yn arwydd o broblem ddyfnach.

Beth fydd yn digwydd os na fyddwn ni'n gwneud y gwaith hwn?

Mae gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn gofalu amdanon ni pan rydym ni'n fwyaf agored i niwed. Heb drawsnewidiad digidol, gall y gwasanaethau hyn ddod yn anymarferol, yn aneffeithiol ac yn anghynaliadwy. Os na fydd gwasanaethau'n gallu bodloni disgwyliadau, bydd pobl yn dechrau defnyddio gwasanaethau preifat. Bydd y rhai sy'n gallu gwario £10 y mis yn tanysgrifio i wasanaeth meddyg teulu ar eu ffôn clyfar yn gwneud hynny fwy a mwy. Ac oni bai bod ein gwasanaethau yn parhau i fodloni disgwyliadau digidol, mae yna berygl y byddwn ni'n tansilio'r gefnogaeth ar gyfer y gwerthoedd gwasanaeth cyhoeddus sy'n sail iddynt.

Fel y mae'r enghreifftiau uchod yn dangos, mae'r modd i newid yn bodoli. Yr hyn sydd ei angen yw'r ewyllys i wneud newidiadau mawr. Yn ôl awduron [y llyfr ar sut yr aeth Llywodraeth y DU ati i greu'r GDS](#) – sef Gwasanaeth Digidol y Llywodraeth a aeth ati i symleiddio holl wefannau canolog y Llywodraeth a chreu'r prosiect .Gov – “Nid yw'r camau ymarferol i greu sefydliad digidol yn gymhleth. Ond maen nhw'n anodd”.

Yr angen am arweinyddiaeth ddigidol i ganolbwyntio ar anghenion defnyddwyr

Yn ein barn ni, dyma'r ddwy thema a ddaeth i'r amlwg o'r dystiolaeth sydd angen mynd i'r afael â nhw yn gyntaf: arweinyddiaeth a'r angen i ganolbwyntio ar anghenion defnyddiwr terfynol gwasanaeth.

Mae mwy i newid digidol na thechnoleg yn unig. Mae'n ymwneud â diwylliant a'r ffordd rydym yn mynd ati i ddatrys problemau. Mae'r rhai sy'n addasu gwasanaethau yn llwyddiannus yn defnyddio'r hyn a elwir yn ffordd hyblyg o weithio. Eu man cychwyn yw deall yn iawn beth yw'r broblem o safbwynt y person sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Maen nhw'n creu timau bach â chymysgedd o sgiliau i fynd i'r afael â'r broblem trwy bob cam o'i thaith: o'r dechrau i'r diwedd. Mae'r rhain yn dimau o arbenigwyr digidol, o'r diwydiant technoleg fasnachol yn aml, wedi'u cyfuno â doniau mewnol y llywodraeth. Mae unedau o'r fath mewn gwledydd megis Periw, yr Ariannin, UDA, Mecsico, Canada, yr Eidal ac Awstralia, sy'n ymuno â'r gwledydd arloesol y mae eu rhaglenni technoleg wedi hen ennill eu plwyf, megis [Estonia](#), Israel a [Singapore](#). Maen nhw'n treialu wrth fynd yn eu blaenau – maen nhw'n iteru. Mantais hyn yw ei fod yn fodd o nodi problemau yn gynnar a'u datrys, gan leihau'r cyfle am gamgymeriadau costus. Maen nhw'n creu ateb bach, yn ei brofi, yn ei newid ac yn rhoi cynnig arall arni – gan gyfeirio'n ôl at angen y defnyddiwr terfynol ar bob cam. Maen nhw'n agored ynglŷn â'u heriau a'u methiannau. A phan fyddant yn dod ar draws rhywbeth sydd fel petai'n gweithio, byddant yn ei ddatblygu. Gan barhau i iteru a gwella.

Mae hyn yn wahanol i'r ffordd mae'r rhan fwyaf o sefydliadau – yn y sectorau preifat a chyhoeddus – yn mynd i'r afael â phroblemau digidol. Mae'r rhan fwyaf yn credu bod digidol yn golygu technoleg, ond nid yw hynny'n wir: TG yw un o elfennau cyflawni'r newid. Ond yn aml mae arweinwyr yn cymysgu'r termau digidol a TG ac yn tueddu i ystyried problem fel mater technoleg y gellir mynd i'r afael ag ef trwy gaffael ateb TG yn unig – yn aml trwy werthwr sector preifat.

Yn eu hastudiaeth o sut mae Llywodraethau ledled y byd yn addasu, mae [David Eaves a Ben McGuire o Ysgol Kennedy Prifysgol Harvard](#) yn nodi y gellir dweud bod y dull o ddefnyddio unedau gwasanaeth digidol yn aeddfed erbyn hyn, ac yn dangos “incremental wins on a project by project basis – not enterprise transformation”. Maen nhw'n nodi bod adeiladu capasiti mewnol yn allweddol i newid sylweddol wrth weithio tuag at blatfform llywodraeth craidd (e.e. cofrestru sengl, taliadau, dulliau adnabod ac ati).

Mae Eaves a McGuire yn mynd ymlaen i ddweud: "Mae creu consensws yn gallu bod yn wych, ond mae'n gallu cymryd amser hefyd, a heb fecanweithiau gorfodi, efallai y bydd yn rhy wan i annog newid ar draws menter".

Yr angen am fecanweithiau ar gyfer newid

Mae hyn yn pwyntio at elfen allweddol – ac amhoblogaidd: "Mecanweithiau gorfodi" neu reoli gwariant. Efallai y bydd hi'n ymddangos bod y gofyniad am i unrhyw wariant ar dechnoleg uwchlaw lefel benodol (lefel gymharol isel fel arfer) fod yn destun cymeradwyaeth gan dîm o uwch arweinwyr yn groes i'r syniad o arbrofi lleol, ond mae wedi bod yn hollbwysig i atal rhannau o'r llywodraeth rhag gwario gormod o arian ar dechnoleg newydd. Mae'n gallu helpu i dorri seilos gweithredol a gweithio i rannu arfer da. Roedd hyn yn rhan allweddol o ddull GDS Llywodraeth y DU. Meddai Dafydd Vaughan, un o aelodau gwreiddiol GDS: "Rydych chi'n cael cyfoeth o wybodaeth am yr hyn sy'n digwydd gyda thechnoleg – rydych chi'n dechrau creu darlun o ba gonastrau sy'n bodoli, ble mae'r TG wael iawn a ble mae'r llwyddiannau cudd. Mae'r wybodaeth hon yn eich helpu chi i greu darlun o ble mae'r heriau mwyaf i'w datrys."

Mae'r dull hwn wedi cael ei fabwysiadu'n llwyddiannus gan Lywodraeth Cymru o fewn ei ffiniau ei hun (ond nid y tu hwnt i'r ffiniau hynny). Mae Prif Swyddog Digidol Llywodraeth Cymru, Caren Fullerton, wedi cyflwyno'r dull yn raddol trwy haen lywodraethu o'r enw 'Solutions Design Authority' sy'n gweithredu fel porth sicrhau ansawdd. Fe'i dyluniwyd i fod yn fecanwaith nad yw'n dod yn dagfa ond sy'n darparu penderfyniadau cyflym. Mae'n galluogi pwyllgor i brofi atebion yn erbyn strategaeth TGCh, hygyrchedd, diogelwch a safonau eraill ac asesu ansawdd amcangyfrifon cost a'r llwybr i'r farchnad. Meddai Caren Fullerton: "Mae wedi gweithio ac wedi newid ymddygiadau, ac mae'n ymddangos yn gynaliadwy (sy'n bwynt pwysig), ond nid yw'n boblogaidd iawn er ei fod wedi'i ddarlunio fel help a chymorth yn hytrach na rhwystr." Er ei fod yn ei galluogi i gadw llygad ar ddatblygiadau ar draws Llywodraeth Cymru, mae ond yn edrych ar brosiectau newydd, tra bod llawer o'r ddarpariaeth gwasanaethau a'r gwariant wedi'i gynnwys mewn timau a systemau arferol. Meddai: "Rydym yn edrych ar ansawdd ateb a chael pobl i weithio yn y ffordd iawn yn hytrach na herio gan ofyn ai dyma'r peth iawn i'w wneud neu a yw'n iawn iddo gael blaenoriaeth dros rywbeth arall."

Creodd y profiad o gyflwyno rheolaethau gwario yn GDS Llywodraeth y DU amgylchedd diogel ac agored i weision sifil drafod a herio dulliau adrannau o wario arian ar wasanaethau cyhoeddus. Meddai Dafydd Vaughan: "Un o sgil-ffeithiau annisgwyl diddorol rheoli gwariant yn GDS oedd pobl mewn adrannau yn dod at y tîm a gofyn a allen ni eu helpu nhw i atal rhywbeth gwael rhag digwydd."

Er mwyn iddo fod yn effeithiol, rhaid i'r broses rheoli gwariant fod â pharch y system. Mae angen i'r mecanweithiau gael eu deall fel modd o wella darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus gan ddefnyddio technoleg ddigidol. Bydd y broses graffu yn sicrhau cydbwysedd rhwng cydymffurfio ag egwyddorion a safonau cyffredinol a meithrin arloesedd gan y bobl sy'n darparu gwasanaethau rheng flaen. Bydd y broses hon yn fodd o sicrhau newid.

Yr angen am newid diwylliannol – ystyried digidol fel mater system gyfan

Gyda'i gilydd, gall y dulliau hyn – dylunio gwasanaethau dan arweiniad y defnyddiwr; timau amlddisgyblaethol; rheoli gwariant; datblygiad iteratid i'w ddatblygu – gyfrannu at newid y diwylliant.

Y newid mawr mae'r adroddiad hwn yn ei gefnogi yw ystyried digidol fel mater system gyfan, un y dylid disgwyl i bob arweinydd ar bob lefel ei ddeall. Mae'n ffordd wahanol o weithio a meddwl. Ac os byddwn ni'n ei wneud yn iawn (er na fyddwn ni'n gwneud hynny bob tro), mae'r wobwr yn fawr – ac mae'n golygu mwy nag arbedion effeithlonrwydd (er y bydd rhai) – mae'n golygu gwella'r profiad a chanlyniadau gwasanaethau cyhoeddus. Ni fyddwn yn gallu darparu gwasanaethau cyhoeddus effeithiol, teg a chynaliadwy heb drawsnewidiad digidol.

Felly beth sydd angen i ni ei wneud?

Mae angen Strategaeth Ddigidol newydd ar Gymru, arweiniad clir gan Weinidog a Phrif Swyddog Digidol gyda mandad dros newid i weithio ar draws y gwasanaethau cyhoeddus.

Mae strategaeth ddigidol Maer Llundain, [Smarter London Together](#), yn dangos pwysigrwydd amlinellu sut mae datblygiadau presennol yn gweddu i naratif cryf. Nid ydym yn gwerthu'r pethau da rydym yn eu gwneud nac yn amlinellu sut y gallwn ehangu ein cyflawniadau.

Yn yr un modd, mae cael Gweinidog Digidol amlwg yn hollbwysig i greu'r sbardun a'r momentwm sy'n angenrheidiol i greu diwylliant digidol. Mae'r Gweinidog â chyfrifoldeb ar hyn o bryd, Julie James, yn arwain y polisi o fewn ei phortffolio ehangach fel Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip – nid yw'r term digidol yn ymddangos yn ei theitl ac nid yw newid digidol yn amlwg yn y rhaglen lywodraethu ar hyn o bryd. Ar ben hynny, nid oes ganddi gyfrifoldeb dros ddigidol ym maes ieched nac mewn gwasanaethau cyhoeddus ehangach, ac mae cyllid yn cael ei ddsbarthu ymhlith amrywiaeth o weinidogion.

Mae'r panel yn credu bod rhaid i ymrwymiad gwleidyddol lefel uchel gael ei adlewyrchu ym mecanwaith llywodraeth.

Ochr yn ochr â chyfeiriad gwleidyddol cryf, mae'n bwysig bod â Phrif Swyddog Digidol i gyflwyno'r newid. Mae model Llundain yn dangos gwerth recriwtio arweinydd digidol nad yw'n wleidyddol i werthu'r gwaith gweddnewid digidol a chydgyssylltu'r ymdrechion. Mae angen i'r unigolyn dan sylw fod yn rhywun credadwy sydd â phrofiad o greu gwasanaethau, diwylliant a gweledigaeth ddigidol dda. Er mwyn darbwyllo sector cyhoeddus Cymru i weithio gyda'i gilydd, bydd angen rhywun ag enw da sy'n uchel iawn ei barch i wneud y gwaith.

Dylai Prif Swyddog Digidol effeithiol ganolbwyntio ar gynulleidfaoedd allanol a mewnol. Yn allanol, mae angen i'r unigolyn greu cyffro am y gwaith sy'n cael ei wneud – sy'n ddull recriwtio a magu hyder pwysig ynddo'i hun. Ac yn fewnol, bydd gan yr unigolyn rôl hollbwysig o ran gwerthu gweddnewid digidol i weinidogion, uwch weision sifil a phrif weithredwyr ar draws yr holl wahanol sefydliadau ac adrannau sy'n bodoli. Gall Prif Swyddog Digidol cryf chwarae rôl 'haciwr biwrocraidd', gan glirio'r ffordd ac adeiladu'r cymorth i alluogi'r gwaith go iawn i gael

ei wneud. Mae angen i'r gwaith hwn bara y tu hwnt i ad-drefniadau a chylchoedd gwleidyddol, felly ni ellir gadael y gwaith yng ngofal un Gweinidog.

Mae hyn yn mynd y tu hwnt i grŵp bach o unigolion yn gweithio'n annibynnol i geisio sicrhau ffordd newydd o weithio. Er mwyn gwneud newid cynaliadwy go iawn, mae angen i ni sicrhau cyfraniad a pherchnogaeth arweinwyr o bob cwr o wasanaeth cyhoeddus Cymru. Mae enghreifftiau o'r dull hwn mewn meysydd eraill, er enghraifft, mae'r Gymdeithas Llywodraeth Leol yn Lloegr wedi gweithio gydag awdurdodau lleol i gynhyrchu [Datganiad Digidol Llywodraeth Leol](#) (Atodiad 3). Mae hwn yn amlinellu'r egwyddorion a'r ffyrdd o weithio ar draws y sector.

Y cwestiwn a boenodd y panel yw a ddylai'r gwaith hwn gael ei wneud o fewn ffiniau presennol iechyd, llywodraeth leol a llywodraeth ganolog, neu a ddylem gyfuno ein capasiti i weithio ar draws holl wasanaethau cyhoeddus Cymru?

Un o'r prif gyfyngiadau (ac mae sawl un) ar gyfer newid digidol yw capasiti – nid oes digon o bobl â'r sgiliau gofynnol i sicrhau newid. Mae'r [British Gas Data Science Centre yng Nghaerdydd](#) wedi efelychu'r gwasanaeth cerddoriaeth digidol [Spotify](#) trwy gyflwyno 'carfannau' (neu dimau) o arbenigwyr digidol y gellir eu lleoli ar draws y sefydliad i weithio ar atebion i broblemau sydd wedi'u nodi. Mae'r rhain yn amlddisgyblaethol ac mae gan bob un rywun â sgiliau tebyg – er enghraifft, mae Ymchwilydd Defnyddwyr ym mhob un.

Mae pob un o'r carfannau hyn yn croes-beillio – yn ogystal â gweithio yn eu tîm eu hunain, mae'r arbenigwyr yn gweithio hefyd gyda'u cymheiriaid arbenigol eu hunain sy'n gweithio ar brosiectau eraill. Fel hyn, gall seilos gael eu dileu a phrofiadau gael eu rhannu – a dylai'r carfannau allu cael mynediad at gyfoeth o ddata sector cyhoeddus.

Mae'n dechrau gweithio yn Nwy Prydain, sy'n dal i ddangos llawer o nodweddion y sefydliad sector cyhoeddus mawr ydoedd unwaith.

Mae'r panel yn argymhell y dylai GIG Cymru, llywodraeth leol a llywodraeth ganolog fod yn gartref i amryw o Garfannau amlddisgyblaethol a fyddai'n gweithio ar atebion iteradd i broblemau a nodir gan ddefnyddwyr.

Byddai'r gwaith ym mhob sector yn cael ei oruchwylio gan ei Brif Swyddog Digidol ei hun – Prif Swyddog Digidol ar gyfer GIG Cymru, Prif Swyddog Digidol ar gyfer Llywodraeth Leol a Phrif Swyddog Digidol ar gyfer Llywodraeth Cymru (a Chyrff a Noddir). Byddai'r rhain yn gweithredu fel Dirprwy Brif Swyddogion Digidol ar gyfer Cymru hefyd ac, ynghyd â Phrif Swyddog Digidol ar gyfer Cymru, byddent yn darparu arweinyddiaeth gyfunol ar draws sector cyhoeddus Cymru. Gyda'i gilydd, byddent yn darparu gwaith craffu a chymorth arbenigol i dimau, yn darbwyllo dysgu trwy osod safonau digidol a rheoli gwariant ac yn helpu i uwchsgilio'r gweithlu trwy uwchraddio arfer da. A byddant yn atebol i'r Gweinidog sy'n arwain ar lefel y Cabinet.

Byddai'r dull hwn yn golygu bod pob rhan o wasanaeth cyhoeddus Cymru yn gyfartal. Ni fyddai unrhyw gwestiwn o Lywodraeth Cymru yn dweud wrth gynghorau beth i'w wneud; yn hytrach,

byddai'n gweithio gyda nhw fel partneriaid i ddeall anghenion defnyddwyr a darparu capasiti i ddatrys problemau.

Byddai pob un o'r Carfannau amlddisgyblaethol yn rhannu profiadau yn llorweddol ar draws eu cymheiriaid sy'n gweithio mewn gwahanol rannau o'r gwasanaethau cyhoeddus, felly byddai ymchwilydd defnyddwyr sy'n gweithio ar broblem yng Nghyngor Conwy yn rhannu profiadau ag ymchwilydd defnyddwyr sy'n gweithio ar broblemau ar wahân yn Cyfoeth Naturiol Cymru neu ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, er enghraifft.

Gallai hyn helpu i ddileu'r seilos o fewn ac ar draws cyrff cyhoeddus a gwneud y defnydd gorau o adnoddau prin. Byddai rhannu agored a thryloyw yn arwain at wireddu egwyddorion 'Unwaith i Gymru'.

Mae hyn oll yn gofyn am arweinyddiaeth, adnoddau a pharodrwydd i newid. Os byddwn yn parhau i fethu â gweithredu ar argymhellion arbenigwyr, byddwn yn gwastraffu mwy o arian ac yn parhau i ddarparu gwasanaethau o safon isel. Ac wrth i'n disgwyladau digidol mewn bywyd bob dydd barhau i dyfu, bydd ein gwasanaethau cyhoeddus yn disgyn ymhellach ar ei hôl hi.

Ni allwn adael i hynny ddigwydd. Mae gennym gyfrifoldeb i weithredu.

Argymhellion a chymau gweithredu allweddol

Mae'r achos cryf dros newid yn bodoli. Mae'n bryd i ni nawr weithredu. Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu chwe argymhelliad, gan gynnwys camau gweithredu ac amserlen ar gyfer newid. Dyma'r argymhellion:

1. Dylunio gwasanaethau cyhoeddus yn seiliedig ar anghenion y defnyddiwr

Anghenion defnyddwyr gwasanaethau cyhoeddus ddylai gael blaenoriaeth, a dylai ein polisiau a'n systemau ganolbwyntio ar y dinesydd a dylid eu dylunio ar sail ar yr anghenion hynny.

2. Sefydlu arweinyddiaeth ddigidol glir yng Nghymru

Mae angen Strategaeth Ddigidol newydd ar Gymru, arweiniad clir gan Weinidog a Phrif Swyddog Digidol gyda mandad dros newid i weithio ar draws y gwasanaethau cyhoeddus.

3. Datblygu a chyflwyno safonau gwasanaeth digidol

Ymrwymo i gynllun sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr trwy fabwysiadu cyfres o safonau gwasanaeth. Rhaid i'r egwyddorion hyn gael eu mabwysiadu, eu hyrwyddo a'u cynnal.

4. Nodi bylchau mewn sgiliau a gallu a datblygu cynllun i gau'r bylchau hynny

Asesu sgiliau, gallu ac uchelgais ein gweithwyr sector cyhoeddus a darparu'r hyfforddiant a'r cymorth sydd eu hangen arnynt. I gefnogi hyn, dylai Llywodraeth Cymru greu cronfa o arbenigwyr i helpu i rannu ac ysbrydoli rhagoriaeth ddigidol ar draws sector cyhoeddus Cymru.

5. Creu dull o greu cymhelliant a rheoli gwariant

Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu buddsoddiad canolog ychwanegol i wasanaethau digidol newydd. Yn gyfnewid am hynny, rhaid i'r gwasanaethau gyfateb i egwyddorion a safonau digidol a'r llywodraethu digidol a gynigir yn y ddogfen hon. Dylai gwariant gael ei awdurdodi yn erbyn cyflawni'r safonau, gyda'r nod o leihau dyblygu a chynyddu arbedion maint wrth hyrwyddo dylunio dan arweiniad y defnyddiwr.

6. Cytuno ar amserlen glir ac uchelgeisiol ar gyfer newid, gan ddangos cyflymder ac ehangder

Amlinellu amserlen ar gyfer newid yn canolbwyntio ar y tymor byr (18 mis) a chanolig (hyd at 5 mlynedd).

Argymhelliad Un: Dylunio gwasanaethau cyhoeddus yn seiliedig ar anghenion y defnyddiwr

Mae bwlch mawr wedi dechrau agor rhwng y profiad mae pobl yn ei gael wrth ddefnyddio gwasanaethau cyhoeddus a'r gwasanaethau preifat sydd bellach yn hollbresennol. Os ydych chi'n siopa ar-lein, yn gwyllo ffilm, yn gwrando ar gerddoriaeth ac yn prynu dillad, mae'r profiad ar-lein yn ddi-dor. Mae'r profiad wedi'i ddylunio i fod yn ddigidol drwyddo draw – gydag anghenion y defnyddiwr yn rhan annatod o'r broses gyfan.

I'r gwrthwyneb, nid oes gan lawer o wasanaethau cyhoeddus unrhyw lwybr ar-lein o gwbl (mae apwyntiad ysbyty, er enghraifft, yn dal i fod yn ymarfer papur) neu, yn achos llywodraeth leol, dim ond rhan o'r broses sydd ar-lein, er enghraifft, wrth adrodd bod casgliad biniau wedi'i golli, efallai eich bod yn gwneud hynny trwy wefan, ond mae gweddill y broses yn dal i fod ar bapur. Does dim un awdurdod lleol yn darparu gwasanaeth digidol di-dor o'r dechrau i'r diwedd ar gyfer pob cais am wasanaeth.

Ym mis Ebrill 2017, cyhoeddodd Socitm [ganfyddiadau ei ymchwil i aeddfedrwydd digidol yn awdurdodau lleol Cymru](#). Daeth i'r casgliad bod absenoldeb 'dylunio sy'n canolbwyntio ar y dinesydd' yn golygu bod gwasanaethau yn aml yn cael eu dylunio o safbwynt yr hyn mae'r awdurdod lleol yn credu sydd ei angen ar ddinasyddion, yn hytrach na'r hyn mae'r dinasyddion hynny ei eisiau mewn gwirionedd.

Mae hyn yn wir ar draws gwasanaethau cyhoeddus. Yn aml, nid oes syniad clir pwy yw'r 'defnyddiwr' ar gyfer llawer o'n gwasanaethau. Wrth ddarllen dogfen allweddol Llywodraeth Cymru ar ddyfodol y GIG, [Cymru Iachach: ein Cynllun Iechyd a Gofal Cymdeithasol](#), gallech yn wir dybio bod y system yn cael ei chynllunio ar gyfer y clinigwyr yn hytrach na'r cleifion.

Rhaid inni greu systemau sy'n cael eu dylunio yn seiliedig ar anghenion y defnyddwyr. I'r perwyl hwnnw, mae angen i ni wahaniaethu rhwng anghenion defnyddwyr systemau a ddefnyddir i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus ac anghenion defnyddwyr terfynol y gwasanaethau cyhoeddus eu hunain. Fodd bynnag, nid oes yna broffesiwn yn GIG Cymru, Llywodraeth Leol Cymru na Llywodraeth Cymru ei hun sydd yno'n unswydd ar gyfer deall, cynllunio neu brofi gwasanaethau o safbwynt y defnyddiwr terfynol.

Mae gan GDS (Gwasanaeth Digidol y Llywodraeth) Llywodraeth y DU [Safon Gwasanaeth Digidol](#) sy'n gosod deall anghenion defnyddwyr fel y cyntaf o'i 18 o feini prawf i helpu'r llywodraeth i greu a rhedeg gwasanaethau digidol da. Mae ['Digital Services Playbook' Llywodraeth UDA](#) yn nodi mai 'deall yr hyn sydd ei angen ar bobl' yw ei brif flaenoriaeth. Yn yr un modd, mae Llywodraeth yr Alban wedi mabwysiadu [Safon Gwasanaeth Digidol yn Gyntaf](#) newydd sy'n nodi mai'r angen i ddeall anghenion defnyddwyr yw ei hegwyddor gyntaf, ac mae ei systemau newydd yn rhoi pwyslais cryf ar Ddylunio sy'n Canolbwyntio ar y Defnyddiwr.

Mae'n arwyddocaol bod Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu fersiwn ddiwygiedig o'r safon GDS ar gyfer ei gwasanaethau digidol – ond yn yr un modd â llawer o'i chanllawiau, cafodd hon ond ei chyhoeddi'n fewnol. Nid yw hyn yn ysbryd y diwylliant digidol o onestrwydd.

Digital First Service Standard



01. User centred

Understand user needs. Research to develop a deep knowledge of who the service users are and what that means for the design of the service.

02. Usable and accessible

Create a service that is usable, accessible and intuitive enough that users succeed first time.

03. Channel shift

Identify and, wherever possible, remove impediments that prevent users from using the digital service, clearly establishing it as the primary channel. Plan to provide appropriate assisted digital support if necessary.

04. Consistent user experience

Build a service consistent with the user experience of the rest of mygov.scot including using the design patterns and style guide.

05. Continuous feedback

Put a plan in place for ongoing user research and usability testing to continuously seek feedback and input from users to improve the service.

06. Data driven

Use tools for analysis that collect performance data. Use this data to analyse the success of the service and to translate this into features and tasks for the next phase of development.

07. Cross-functional team

Put in place a sustainable multidisciplinary team that can design, build and operate the service, led by a suitably skilled senior manager with decision-making responsibility.

08. Sustainability

Build a service that can be iterated and improved on a frequent basis and make sure that you have the capability, resources and technical flexibility to do so.

09. Continuous improvement

Build the service incrementally, releasing early and often, using the iterative and user-centred methods set out in the GDS service manual.

10. Business continuity

Define, document and regularly test a plan to handle disasters and other incidents that may cause the digital service to be taken temporarily offline.

11. Technology appraisal

Evaluate what technology, tools and systems will be used to build, host, operate and measure the service, and how to procure them.

12. Information governance

Evaluate what user data and information the digital service will be providing or storing, and address the security level, legal responsibilities, privacy issues and risks associated with the service (consulting with experts where appropriate).

13. Open data

Make all non-personal, non-commercially sensitive data from the service available for re-use by others under an appropriate licence.

14. Ecosystem

Identify how your service aligns with Scotland's digital ecosystem.

15. Open source

Make all new source code open and reusable, and publish it under appropriate licences (or provide a convincing explanation as to why this cannot be done for specific subsets of the source code).

16. Open standards

Use open standards and common government platforms where available.

17. Green ICT

Deliver a digital service whose impact on the environment, over its whole lifecycle, is understood. Plan to reduce the environmental impact of the service over time.

18. Data hosting and data centres

Adopt cloud computing or virtualisation as the preferred approaches to the delivery of data hosting for the service.

19. Performance management

Identify performance indicators for the service, including the 4 mandatory key performance indicators (KPIs) defined in the GDS service manual. Establish a benchmark for each metric and make a plan to enable improvements.

20. Transparent

Publish performance data on the Digital First Performance Platform.

21. Operational acceptance

Regularly test the end-to-end service in an environment identical to that of the live version, including on all common browsers and devices, and using dummy accounts and a representative sample of users.

22. Sponsor acceptance


Test the service from beginning to end with the minister responsible for it.

Ffynhonnell: [Safon Gwasanaeth 'Digidol yn Gyntaf' Digital Scotland](#)

Mae'n haws dylunio gwasanaethau yn seiliedig ar anghenion defnyddwyr ar brosiectau newydd (neu 'faes glas') nag ydyw ar brosiectau etifeddol (neu 'dir llwyd'). Er enghraifft, mae Awdurdod Refeniw Cymru wedi llwyddo i wneud hyn o'r cychwyn gyda system ar-lein yn y Cwmwl ar gyfer casglu trethi Cymru, wedi'i chynllunio a'i phrofi ar y bobl a fyddai'n ei defnyddio. Mae arfer da yn digwydd, ond nid yw'n eang ac mae'n ymddangos ei fod yn digwydd oherwydd gweledigaeth a brwdfrydedd arweinwyr unigol a'u timau, yn hytrach na bod yn rhan gynhenid o'r system.

I'r gwrthwyneb, yn yr Alban mae Dylunio sy'n Canolbwyntio ar y Defnyddiwr yn rhan annatod o brosiectau newydd. Mae gan y system Nawdd Cymdeithasol newydd ar gyfer yr Alban strategaeth ymgysylltu â defnyddwyr yn ei phensaerniaeth ddylunio, ac mae gweithwyr Dylunio sy'n Canolbwyntio ar y Defnyddiwr proffesiynol mewn timau gwasanaeth. Trwy fynd ati i adeiladu capasiti dylunio a chreu timau aml-ddisgyblaethol, maent yn gweithio i newid diwylliant o ran sut mae pobl yn ystyried gwasanaethau cyhoeddus. Wrth gwrs, mae angen cyfaddawdu i ddarparu'r prosiect cymhleth iawn hwn o fewn amserlen dynn, ond mae safbwynt y defnyddiwr yn cael ei ystyried ym mhob cyfnod.

Our Approach to Digital Transformation



Scottish Government
Riaghaidh na h-Alba
gov.scot



Ffynhonnell: Dull gweddnewid digidol Digital Scotland. 'From Discovery to Alpha to Beta to Live'

Er mwyn i hyn weithio mewn gwasanaethau cyhoeddus, rydym angen arweinyddiaeth sy'n deall newid digidol – ac sy'n deall nad yw problemau heddiw yn debygol o gael eu datrys trwy strwythurau gorchymyn a rheoli canolog.

Yn ôl [Socitm](#), er ei fod yn gymaradwy â chynghorau mewn rhannau eraill o'r byd, mae cyfeiriad awdurdodau lleol Cymru dros y pum mlynedd diwethaf wedi bod yn fwy anwadal na chyfeiriad y DU ar y cyfan, ac maen nhw ar ei hôl hi o ran profiad cwsmeriaid o'r sector preifat.

Yn hytrach na chynnwys dinasyddion yn y gwaith o ail-ddylunio a newid prosesau o'r dechrau i'r diwedd, sylwodd Socitm fod Cynghorau'n canolbwyntio'n bennaf ar gyflawni arbedion tymor byr trwy symud rhai trafodion ar-lein (wedi'u caffael o werthwyr sector preifat yn aml). Yn ogystal, yn wahanol i rannau eraill o'r DU, ychydig iawn o ddefnydd mae Cynghorau yng Nghymru yn ei wneud o safon gwasanaeth GDS oherwydd diffyg ymwybyddiaeth neu allu i ddefnyddio'r dull hwn.

Mae adroddiad Bob Gann, [Cynhwysiant Digidol mewn Iechyd a Gofal yng Nghymru](#), yn ein hatgoffa bod lefelau cynhwysiant digidol yn dal i fod yn ystyfnig, gyda 15% o bobl ddim yn defnyddio'r rhyngwrwd o gwbl. Bydd dylunio gwasanaethau yn seiliedig ar anghenion go iawn defnyddwyr yn ystyried anghenion pobl nad ydynt ar-lein ac yn creu gwasanaethau sy'n ystyried eu hanghenion. Er enghraifft, arweiniodd gwaith ymgysylltu â defnyddwyr yn ardal Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr at greu cynllun telefeddygaeth ar gyfer cleifion dros 85 oed, lle roedd cleifion yn gweld eu meddygon yn eu hysbytu cymunedol lleol trwy defeddygaeth yn lle gorfod teithio i'r ysbyty, gan arbed rhwng 2-5 a 30 milltir o deithio i lawer o gleifion. Efallai nad ydynt ar-lein gartref, ond gall dull sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr ddylunio gwasanaethau sy'n defnyddio adnoddau digidol i ddiwallu anghenion pawb.

Camau gweithredu:

- a. Cael Gweinidogion i gytuno y dylai sector cyhoeddus Cymru fabwysiadu dull defnyddiwr yn gyntaf wrth ddylunio gwasanaethau cyhoeddus.
- b. Cyfathrebu'r dull ar draws sector cyhoeddus Cymru, gan ddarparu cymorth ac arweiniad ar beth mae hyn yn ei olygu ar gyfer dylunio a chyflwyno gwasanaeth digidol.

Argymhelliad Dau: Sefydlu arweinyddiaeth ddigidol glir yng Nghymru

Nid ar hap a damwain mae gweddnewid digidol yn llwyddo. Mae'n cymryd arweinyddiaeth bendant sy'n barod i herio a chael ei herio, bod yn gydnherth a hyblyg, gwneud penderfyniadau anodd a chanolbwyntio ar y ddarpariaeth. Yr arweinyddiaeth hon sy'n arwain at newid diwylliannol.

Ar hyn o bryd, mae bwlch ar y brig – ychydig iawn o arweinwyr ein byrddau iechyd, ein hawdurdodau lleol a'n huwch wasanaeth sifil sy'n arweinwyr digidol hyderus. Yn wir, mae'r rhan fwyaf yn fodlon cyfaddef nad ydyn nhw'n ei ddeall mewn gwirionedd.

Yn ogystal, nid oes yna Brif Swyddog Digidol ar gyfer Cymru. Er bod gan Lywodraeth Cymru Brif Swyddog Digidol ([sydd wedi gwneud llawer o waith da gan ddechrau heb ddim](#)), nid yw ei mandad yn mynd y tu hwnt i Barc Cathays – ac nid yw'n ymestyn i'r GIG na Llywodraeth Cymru. Hi yw Prif Swyddog Digidol Llywodraeth Cymru, nid Cymru gyfan. Mae'r panel yn credu bod angen rhywun i arwain datblygiadau digidol ar draws yr holl wasanaethau cyhoeddus i rannu arferion gorau, gosod safonau gwasanaeth digidol a dileu dyblygu a gwastraff ar draws y sector cyhoeddus. Byddent yn adolygu cynnydd yn unol â'r safonau newydd ac yn sicrhau gwerth am arian trwy reolaethau a chymhellion megis rôl glir yn awdurdodi gwariant yn erbyn cyflawni'r safonau, gyda'r nod o leihau dyblygu a chynyddu arbedion maint a hyrwyddo dylunio dan arweiniad y defnyddiwr.

Mae angen arweinyddiaeth ganolog glir mewn perthynas â newid digidol ar wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru ac maen nhw'n disgwyl hynny. Nid yw'r dirwedd bresennol yn galonogol.

Mae adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ar [Systemau Gwybodeg yn GIG Cymru](#), yr adolygiad Seneddol o Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru ac adroddiad diweddar y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus [i gyd yn nodi bod arweinyddiaeth a sgiliau yn fater pwysig dros ben](#).

Pwysleisiodd adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru fod y ffaith nad yw digidol yn cael ei gynrychioli ar lefel Bwrdd yn y Gwasanaeth Iechyd yn broblem. Ac aeth y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ymhellach trwy [argymhell adolygiad o gapasiti uwch reolwyr](#) o ran sgiliau a llywodraethu o fewn Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru a thimau digidol ehangach y GIG mewn byrddau iechyd. Meddai'r pwyllgor: "Ni chawsom ein hargyhoeddi bod gan uwch swyddogion Llywodraeth Cymru ac uwch weithredwyr y GIG y ddealltwriaeth dechnegol fanwl sydd ei hangen i roi cyfarwyddyd eglur i Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru ac i herio ei berfformiad a'i benderfyniadau."

Nododd yr adroddiadau hyn faterion lluosog, ac mae'r rhain wedi'u crynhoi yn yr atodiad. Oni bai bod atebolrwydd dros fethiannau, a datrysiad i fynd i'r afael â'r materion, mae yna berygl go iawn y bydd brwdfrydedd o fewn y system yn diflannu.

[Pan asesodd Socitm arweinyddiaeth ddigidol awdurdodau](#), daeth i'r casgliad nad oes gan y rhan fwyaf o Gynghorau Brif Swyddog Digidol, gyda llawer o'r farn bod digidol yn rhan o TGCh. Daeth i'r casgliad nad yw strategaethau digidol, lle maen nhw'n bodoli (nid oedd strategaeth o'r

fath gan bron i chwarter o Gynghorau), yn manteisio'n llawn ar botensial yr agenda ddigidol. Daeth Socitm i'r casgliad nad oes digon o feincnodi gyda sefydliadau y tu allan i Gymru ac nad yw Awdurdodau Lleol yn manteisio'n llawn ar ddata dinasyddion i ddylunio gwasanaethau.

Yn ôl adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ym mis Rhagfyr 2018, [Aeddfedrwydd llywodraeth leol o ran y defnydd o ddata](#), nid yw awdurdodau lleol yn manteisio ar y symiau mawr o ddata y maen nhw'n ei gasglu i weithredu mor effeithlon ac effeithiol â phosibl. Yn ôl yr adroddiad: "Yn rhy aml, mae gwasanaethau a thimau yn cadw gwybodaeth mewn seilos ac yn ei defnyddio i un diben. Oherwydd nad oes gan awdurdodau safonau data corfforaethol, mae dyblygu gwybodaeth yn gyffredin a phrosesau integreiddio data yn aml yn wael. O ganlyniad, mae'n bosibl bod y potensial i aildefnyddio data yn cael ei anwybyddu."

Nid anobeithio yw hyn, ond galw am weithredu. A daeth Socitm o hyd i rywfaint o arfer da, ond dadleuwyd y bydd rhagoriaeth ddigidol ond yn cael ei chynnal lle mae newid diwylliant, datblygiad sgiliau digidol ar bob lefel a strategaeth sydd ar waith ar draws pob lefel o awdurdod lleol.

Rydym wedi dod o hyd i enghreifftiau o arweinyddiaeth dda wrth ddarparu prosiectau sy'n wynebu'r claf yn y GIG. Er enghraifft, mae Rhwydwaith Clinigol Arennol Cymru wedi [gweddnwidiu y gwasanaeth digidol a ddarperir i gleifion arenol](#), gan gynnwys e-ragnodi, negeseuon testun atgoffa a mynediad cleifion at eu canlyniadau prawf a'u cynlluniau triniaeth. Er mai mantra'r GIG yw 'Unwaith i Gymru', datblygwyd y dull hwn yn lleol, y tu allan i systemau cenedlaethol, a chafodd ei sbarduno gan angen clinigol yn hytrach na thechnoleg. Yr her yw datblygu arloesedd lle nad oes unrhyw gapasiti i wneud hynny. Mae llwyddiant Rhwydwaith Clinigol Arennol Cymru yn bennaf oherwydd brwdfrydedd ac ymrwymiad y tîm yn Ysbyty Treforys. Bydd hi'n anodd trosglwyddo hyn y tu allan i gyrraedd y tîm gwreiddiol i fyrrdau iechyd eraill. Nid yw hwn yn brofiad anghyffredin.

Mae byrddau iechyd yn adrodd nad oes ganddynt y capasiti i uwchraddio syniadau gan eu bod yn canolbwyntio ar gadw systemau presennol i redeg ("cadw'r olwynion i droi", fel y dywedodd un Prif Swyddog Gweithredol wrthym). Adlewyrchir hyn mewn Cynlluniau Tymor Canolig Integredig y mae Llywodraeth Cymru yn eu defnyddio i fesur perfformiad. Mae byrddau iechyd yn cael eu beirniadu ar gyflawni targedau presennol, ac maen nhw'n dyrannu adnoddau a thalent yn unol â hynny.

Mae'n hollbwysig ein bod yn creu amgylchedd lle gall arweinwyr osod yr agenda a lle mae risgiau ac arloesedd yn cael eu cefnogi. Yr un fath ag unrhyw newid o'r maint hwn, ni fydd hyn yn hawdd. Heb arweinyddiaeth ganolog a'r caniatâd a'r cyfarwyddyd priodol (gan Weinidogion ac Uwch Weision Sifil), bydd newid yn methu, bydd arian yn cael ei wastraffu ac, yn bwysicaf oll, bydd y cyfle i wella bywydau a phrofiadau dinasyddion yn cael ei gollu.

Mae gan Gymru strategaeth ddigidol gyfredol; yn wir, mae ganddi [strategaeth iechyd a gofal cymdeithasol ddigidol ar wahân](#) hefyd, ond mae'r byd wedi symud ymlaen ac mae angen un newydd arnom. Yn hanfodol, mae angen iddi gael ei hategu gan y Gweinidog sy'n ei harwain a strategaeth a ddyluniwyd i ddwyn pobl ynghyd gyda ffocws a sbardun.

Mae'r panel yn cymeradwyo'r [Local Digital Declaration](#) a gyflwynwyd gan Weinidogaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol (MHCLG) y DU, Gwasanaeth Digidol y Llywodraeth (GDS) a chasgliad o awdurdodau lleol a chyrrff sector o bob cwr o'r DU (Atodiad 2). Adeg cyhoeddi'r adroddiad hwn, roedd 45 o sefydliadau wedi cofrestru ar gyfer y datganiad, gydag ymrwymiad i weithio ar raddfa newydd i:

- Ddylunio gwasanaethau sy'n diwallu anghenion dinasyddion yn well
- Herio'r farchnad dechnoleg i gynnig y dulliau a'r gwasanaethau hyblyg sydd eu hangen arnom
- Diogelu preifatrwydd a diogelwch dinasyddion
- Darparu mwy o werth am arian

Mae'r panel yn argymhell y dylem gytuno ar ddatganiad digidol ar draws gwasanaethau cyhoeddus Cymru sy'n ymrwymo i ffyrdd newydd o weithio.

Camau gweithredu:

- a. Creu Prif Swyddog Digidol i Gymru
- b. Penodi arweinydd digidol ym mhob sector neu gorff gwasanaeth cyhoeddus y gellir ei ddwyn i gyfrif am ddarpariaeth; rôl sy'n mynd y tu hwnt i fod yn hyrwyddwr digidol fel bod yr arweinydd yn cael ei rymuso gyda chaniatâd a chyfrifoldebau clir i wneud newid.
- c. Ailbennu ac ail-lansio'r Fforwm Arweinwyr Digidol dan arweiniad Llywodraeth Cymru, i'w gadeirio gan y Gweinidog â chyfrifoldebau digidol a chydag arweinwyr digidol yn rhan ohono
- d. Creu grŵp cynghori sy'n adrodd i'r Gweinidog neu'r Prif Swyddog Digidol, y gellir galw arno i gefnogi a sicrhau darpariaeth ar draws y sector preifat. Dylai'r grŵp hwn gynnwys y rhai â phrofiad ac arbenigedd ar draws pob math o arbenigeddau sy'n ofynnol i sicrhau llwyddiant digidol
- e. Gwneud safonau a rheolaethau digidol yn rhan annatod o lywodraethu presennol ym mhob corff gwasanaeth cyhoeddus.
- f. Galluogi'r grŵp hwn i gefnogi sicrwydd yn erbyn safon gwasanaeth sydd newydd ei chreu. (Gweler argymhelliad 3)
- g. Sefydlu gofynion i gefnogi darpariaeth a darparu adroddiadau gweladwy a thryloywder mewn perthynas â chynnydd.
- h. Dylai'r Prif Swyddog Digidol newydd i Gymru ddrafftio Strategaeth Ddigidol newydd i Gymru a'i chyhoeddi, gan geisio cael adborth mewn ffordd agored a thryloyw, gan gynnwys cael ymchwil defnyddwyr.

- i. Dylunio a darparu yn erbyn strategaeth gyfathrebu ac ymgysylltu ar gyfer Digidol yng Nghymru.
- j. Dylai'r swyddogaeth arweinyddiaeth ganolog newydd weithio yn agored a dechrau siarad am y cynllun gweithredu a'r cynnydd a wneir. Peidiwch â disgwyl tan fydd gwasanaeth yn barod; ewch ati i hyrwyddo gwaith yr arweinydd digidol i Gymru, ynghyd â'i hyrwyddo fel unigolyn yn rhithwir trwy'r cyfryngau cymdeithasol ac ati, ynghyd â thrwy ddiwyddiadau a chyfleoedd siarad.

Argymhelliad Tri: Datblygu a chyflwyno safonau gwasanaeth digidol

Y gwahaniaeth go iawn o ran mabwysiadu digidol ar draws gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yw'r ffocws digyfaddawd ar anghenion y defnyddiwr gwasanaethau. Mae'r ymrwymiad i ddyluniad sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr a mabwysiadu cyfres o safonau gwasanaeth yn hanfodol. Rhaid i'r egwyddorion hyn gael eu mabwysiadu, eu hyrwyddo a'u cynnal.

Dylai'r safon gwasanaeth gael ei chytuno gan yr arweinwyr digidol, gyda gwasanaethau yn cael eu sicrhau yn ei herbyn yn annibynnol gan eu cymheiriaid trwy'r grŵp cynghori wrth iddynt ddatblygu trwy gylch bywyd datblygu.

Er mwyn i ni weddnewid y ffordd rydym yn defnyddio data, mae angen mwy o ryngweithredu, hygyrchedd, gonestrwydd ac arloesedd, ynghyd â gwell sgiliau gwyddoniaeth data. Bydd angen mwy na'r data craidd i wella ein gwasanaethau; bydd angen newid diwylliannol.

Nid yw natur draddodiadol y gwasanaethau a gynigir i ddinasyddion yn effeithlon nac yn effeithiol. Mae angen ad-drefnu gwasanaethau cyhoeddus, ac mae Cymru yn ddigon bach i arwain y ffordd ac yn ddigon mawr i wneud gwahaniaeth o ran dod o hyd i ffyrdd o esblygu. Mae angen i arweinyddiaeth ddigidol a ffyrdd o weithio gefnogi cydweithrediad ar draws ffiniau ac ar draws sectorau i sicrhau budd i ddinasyddion a defnyddwyr. Rhwng gynig ar wasanaeth bach, arbrofwch a phrofwch sut y gallai weithio ar draws sectorau a meintiau yn seiliedig ar wersi a ddysgir ar hyd y ffordd.

Rhaid i'r dull gael ei gefnogi gan weithio agored, yn ffisegol ac yn ddigidol. Mae trafod yr hyn rydym yn ceisio ei gyflawni a pham yn meithrin ymddiriedaeth a gwelededd ac yn dod â momentwm y tu hwnt i fentrau unigol. Mae hyn yn golygu cyfathrebu pan na fydd pethau'n mynd yn unol â'r disgwyl a bod yn agored ynghylch pam a beth sydd wedi'i ddysgu. Mae diweddariadau cynnydd rheolaidd, perchnogaeth penderfyniadau a bod yn barod i iteru yn allweddol.

Byddai chyflwyno rheolaethau gwariant sy'n gysylltiedig â mabwysiadu'r safonau yn beth da.

Camau gweithredu:

- a. Datblygu cyfres o safonau gwasanaeth i Gymru, gan gyfeirio at Safon Gwasanaeth y Llywodraeth a Safon Gwasanaeth Digidol yn Gyntaf yr Alban, mewn cydweithrediad ag arweinwyr newid digidol Sector Cyhoeddus Cymru.
- b. Mabwysiadu'r safonau gwasanaeth hyn a sefydlu ar ba lefel y daw'r rhain yn ofyniad ar gyfer pob newid yn y sector cyhoeddus trwy bob cyfnod o'r cylch bywyd.
- c. Dylai'r gwasanaethau a ddarperir fod yn destun asesiad i sicrhau eu bod yn cyflawni'r safonau hyn. Gall Gweinidogion sbarduno ansawdd trwy gydymffurfio â'r safon. Dylai asesiadau gael eu cynnal gan aseswyr hyfforddedig a'u hadeiladu ar sail rhwydwaith o gymheiriaid ar draws gwasanaethau cyhoeddus Cymru ond sy'n cael ei reoli a'i arwain gan y Grŵp Cynghori.

- d. Nodi gwasanaethau lle mae'r cyfle i gydweithredu yn amlwg.
- e. Datblygu datganiad digidol ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus Cymru.

Argymhelliad Pedwar: Nodi bylchau mewn sgiliau a gallu a datblygu cynllun i gau'r bylchau hynny

Rhaid i aeddfedrwydd digidol, sgiliau a gallu fod yn ffocws craidd. Fel sy'n cael sylw yn yr adran 'Yr Achos dros Newid' yn yr adroddiad hwn, mae rhai mentrau cyffrous iawn yn datblygu yng Nghymru mewn perthynas â'r gallu sydd ei angen ar gyfer Cymru ddigidol, ond mae rhai meysydd sylfaenol ar goll hefyd ac mae angen creu gweithlu â sgiliau ehangach. Mae'r rhain yn cynnwys ffocws ar ddylunio sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr a rheoli cyflenwyr. Mae hyn yn arbennig o bwysig lle mae gorddibyniaeth ar gyflenwyr nad ydynt yn gwmnïau digidol brodorol ac sydd â buddiannau breintiedig o ran cadw'r sefyllfa bresennol e.e. canolfannau data dros y cwmwl, rheoli newid yn lle gwelliant parhaus.

Mae angen gwneud gwaith i ddatblygu'r galluoedd tymor hir angenrheidiol, o ymchwil defnyddwyr, mewnwelediad cwsmeriaid a dadansoddiadau data i ddatblygiad meddalwedd, defnydd parhaus a rheoli cylch bywyd gwasanaeth. Mae hyn yn gofyn am ddull newydd, o annog y defnydd o economi gymysg gyda chymysgedd o BBaChau a chyflenwyr mawr i ddatblygu sgiliau mewnol.

Mae gan Swyddfa Ddigidol Llywodraeth Leol yr Alban [raglen i ddarparu'r sgiliau sydd eu hangen ar arweinyddwyr i gyflawni gweddnewid digidol nawr ac yn y dyfodol](#). Yn yr un modd, mae gan [DataLab](#), cydweithrediad llwyddiannus yr Alban gyda'r sector Prifysgolion, [ffrwd o waith](#) sy'n canolbwyntio ar ddatblygu sgiliau a doniau, gan gynnwys helpu uwch arweinyddwyr i ddeall data a digidol a'u rôl o ran eu meithrin.

Ni lwyddodd adroddiad Socitm ar aeddfedrwydd digidol llywodraeth leol Cymru i ddod o hyd i lawer o dystiolaeth bod cynghorau yn gwneud sgiliau digidol yn rhan annatod o'u strategaethau gweithlu neu'n meddwl am yr angen am sgiliau a galluoedd digidol i'r dyfodol. Roedd llif gwaith wedi'i ddigideiddio yn bresennol, er nad oedd yn aeddfed, ac roedd y dull yn aml yn cael ei sbarduno gan strategaethau asedau eiddo i leihau nifer yr adeiladau yr oedd rhaid iddynt eu rheoli. Nid oedd digon yn defnyddio technolegau cwmwl, ac ychydig iawn o dystiolaeth oedd o awtomeiddio prosesau staff megis cyflwyno treuliau. Yn yr un modd, ychydig iawn o ddefnydd oedd yn cael ei wneud o gyfryngau digidol megis Slack neu Yammer ar gyfer cydweithredu. Dywedodd Socitm ei bod hi'n debygol y bydd cyfleoedd da i ddigideiddio prosesau mewnol ymhellach, ond dywedodd 8 o'r 22 o gynghorau nad oedd ganddynt y gallu i fodloni eu gofynion digidol.

Daeth adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ar aeddfedrwydd digidol llywodraeth leol i'r casgliad mai ychydig iawn o ddadansoddi rhagfynegol sy'n bodoli, sy'n cynnwys pob math o dechnegau ystadegol i fodelu ffeithiau presennol a hanesyddol er mwyn gwneud rhagfynegiadau ynghylch senarios yn y dyfodol. Yn yr un modd, prin yw'r awdurdodau a nododd eu bod yn defnyddio dadansoddiadau cloddio a segmentu data.

Bydd cyflwyno galluogrwydd digidol i uwch arweinyddwyr ar draws gwasanaeth cyhoeddus Cymru yn hollbwysig i fynd i'r afael â hyn. Mae hyn yn golygu mwy na gwthio pawb trwy raglen

hyfforddi gyffredinol. Mae angen dull cyfunol yn seiliedig ar ddealltwriaeth glir o'r bylchau sydd yna yn sgiliau digidol unigolion a sefydliadau.

Yn ogystal ag uwchsgilio uwch arweinwyr, mae angen i ni wneud yr un fath ar gyfer y gweithlu cyfan. Mae llythrennedd digidol yn broblem i weithwyr sector cyhoeddus yn eu gweithle ac yn cyfyngu ar eu cyfleoedd i ddatblygu ac yn eu bywydau eu hunain. Mae [NHS England](#) ac [NHS Scotland](#) wedi amlinellu strategaethau i fynd i'r afael â hyn. Nid oes gan GIG Cymru gynllun uchelgeisiol tebyg sy'n targedu'r gweithlu cyfan.

Mae angen i ni greu Strategaeth Pobl sy'n gallu asesu sgiliau, galluogrwydd ac uchelgais ein gweithwyr sector cyhoeddus a darparu'r hyfforddiant a'r cymorth sydd eu hangen arnynt i gyflawni yn yr Oes Ddigidol. Trwy'r datganiad digidol, bydd angen i ni fynd i'r afael â'r cyfle i greu gweithlu sector cyhoeddus amrywiol a chynhwysol.

Dyma rai o'r meysydd y mae angen canolbwyntio arnynt:

Arweinyddiaeth ddigidol: fel y nodir yn argymhelliad 2, mae angen arweinyddiaeth gref ar Gymru sy'n seiliedig ar ddealltwriaeth graidd o ddarpariaeth gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar ddefnyddwyr ar draws pob rhan o'r gwasanaethau cyhoeddus. Heb yr arweinyddiaeth iawn, ni fydd newid ar y raddfa hon yn llwyddo.

Rheoli Cyflenwyr: mae angen i fuddiannau breintiedig a chontractau hir gyda chyflenwyr traddodiadol gael eu hadolygu a'u herio i sicrhau eu bod yn sail i'r newidiadau sydd eu hangen.

Caffael: mae angen i'r ffordd rydym yn prynu TG a galluogrwydd ddarparu ar gyfer gwahanol fath o berthynas gyda chyflenwyr. Caffael seiliedig ar ganlyniadau sy'n sbarduno ffocws tuag at welliant parhaus, yn hytrach na gwelliannau i'r dyfodol.

Dyled technoleg a TG etifeddol: bydd cyflymder unrhyw drawsnewid yn dibynnu ar y TG etifeddol sy'n ei gefnogi – mae angen cynlluniau i helpu gwasanaethau cyhoeddus i greu a chynnal momentwm tuag at gefnogi systemau a seilwaith TG. Mae TG sector cyhoeddus yn cael ei difetha gan ddigwyddiadau lle mae diffyg buddsoddiad mewn cymorth a chynhaliadaeth wedi erydu hyder y cyhoedd.

Dyluniad Sefydliadol: mae'r ffordd mae rhai gwasanaethau cynhwysfawr yn cael eu darparu yn croesi ffiniau hunan-orfodol a greir gan lywodraethu sefydliadol fel arfer.

Darpariaeth ddigidol: bydd gwahanol ddull o newid gwasanaethau cyhoeddus yn gofyn am wahanol setiau o sgiliau, gan gynnwys dylunio gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr, ymchwil defnyddwyr, darpariaeth hyblyg, ymgysylltu digidol a rheoli rhanddeiliaid.

Yn ystod ein hystyriaethau a'n sgysiau, daeth hi'n fwyfwy clir y dylid ystyried syniadau yn ymwneud â gwelliant a defnydd parhaus – yn hytrach nag ystyried digidol fel rydym wedi bod yn meddwl am brosiectau TG yn draddodiadol, sef unwaith i ni gaffael system newydd, ystyried bod y broblem wedi'i datrys ac y gellid gadael y system fel y mae hi tan iddi ddod i'w therfyn (ar yr adeg hynny, bydd system TG fawr arall gan y sector preifat yn cael ei chaffael). Heb

ddiwylliant a galluogrwydd sy'n canolbwyntio ar welliant parhaus, bydd y problemau sy'n gysylltiedig â dyled dechnegol etifeddol yn parhau.

Clywsom hyn gan amryw o sefydliadau sydd wedi cyflwyno gweddnewidiad digidol ar raddfa fawr, gan gynnwys Admiral a Chanolfan Gwyddoniaeth Data Nwy Prydain yng Nghaerdydd. Mae gan y cwmni cyfleustodau dîm Gwyddoniaeth Data yng nghanol Caerdydd sy'n gweithio ar brosiectau ar gyfer y cwmni ar draws y byd. Er bod y rhain yn gwmnïau preifat, maen nhw'n dal i fod yn debyg i'r sefydliadau mawr yr oeddent pan oeddent yn y sector cyhoeddus, a gallwn ddysgu o'r ffordd y maen nhw wedi esblygu yn yr oes ddigidol. Esboniodd Peter Sueref, y Cyfarwyddwr Gwyddoniaeth Data, sut y cawsant eu hysbrydoli gan y gwasanaeth cerddoriaeth digidol [Spotify](#).

Mae Spotify wedi defnyddio "carfannau" i gymryd perchnogaeth dros rannau penodol o'u cynnyrch; mae pob carfan yn gweithio'n annibynnol ond o fewn fframwaith a osodir gan amcanion y cwmni – mae pob cod yn agored a rhyngweithredol ac yn cael eu rhyddhau'n aml i annog arbrofi. Yn hollbwysig, mae carfannau'n cynnwys cymysgedd o sgiliau cyflenwol – fel nad yw gwybodaeth am bynciau penodol yn cael ei gydgrynhoi ac nad oes rhaid i dimau fenthycan gan eraill i gyflawni eu hamcanion. Mae Spotify yn dweud ei fod wedi ceisio creu cymuned o garfannau sy'n gweithio i nod cyffredin, yn hytrach na strwythur sefydliadol hierarchaidd lle mae cyfrifoldeb yn cael ei gydgrynhoi yn nwylo ambell reolwr.

Er efallai na fydd dull penodol Spotify yn gwbl addas i'n hanghenion – mae Spotify yn awyddus i bwysleisio eu bod yn datblygu a mireinio'r system o hyd i ddiwallu eu hanghenion newidiol. Mae'r syniad o greu ymreolaeth a chyfrifoldeb o fewn timau amlddisgyblaethol bach sy'n gallu cyflwyno cynhyrchion newydd yn gyflym yn rhywbeth a ystyrir gan y panel yn elfen allweddol ble bynnag mae gweddnewidiad digidol wedi bod yn llwyddiannus.

Camau gweithredu:

- a. Creu cronfa o arbenigwyr i gefnogi rhagoriaeth ddigidol ar draws sector cyhoeddus Cymru, gyda thimau'n cael eu dyrannu i lywodraeth leol, iechyd a llywodraeth ganolog, gyda Phrif Swyddog Digidol sectorol yn bennaeth ar bob un, yn gweithio tuag at y Prif Swyddog Digidol i Gymru fel rhan o Hyb Cyflawni Digidol.
- b. Creu cymunedau o ymarfer i helpu i gefnogi cysondeb o ran cyflwyno galluogrwydd digidol ar draws sector cyhoeddus Cymru, gan rannu arferion da a methiannau.
- c. Adolygu tirwedd contractau TG ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru a nodi cyfleoedd i ddylanwadu ar alluoedd a ffyrdd newydd o weithio.
- d. Adolygu fframweithiau caffael am gyfleoedd i ddatblygu sgiliau a galluoedd digidol, gan osod targedau ar gyfer twf ym maes digidol a BBaChau.
- e. Creu llyfr chwarae ar gyfer ffyrdd o weithio, gan gynnwys ymchwil defnyddwyr, gweithio hyblyg yn yr agored ac ati yn seiliedig ar gydymffurfiaeth â'r safon gwasanaeth.

- f. Creu strategaeth pobl i asesu sgiliau, galluogrwydd ac uchelgais ein gweithwyr sector cyhoeddus a darparu'r hyfforddiant a'r cymorth sydd eu hangen arnynt i gyflawni yn yr Oes Ddigidol.
- g. Adolygu atebolrwydd a llywodraethu ar gyfer gwasanaethau digidol cynhwysfawr fel rhan o'r broses o ddatblygu a lleoli gwasanaethau newydd.

Argymhelliad Pump: Cyflwyno rheolaethau gwariant

Mae'n gallu bod yn anodd defnyddio safonau digidol yn gyson heb gymhellion clir, yn enwedig mewn gweinyddiaeth ddatganoledig. Cafodd y cynnydd a wnaed gan GDS ei ategu trwy reoli gwariant adrannau i sicrhau bod safonau digidol a ffyrdd o weithio ar flaen y gad o ran darparu gwasanaethau. Ymgysylltu â'r sector cyhoeddus yng Nghymru yw'r ffordd orau o gyflawni canlyniadau sy'n canolbwyntio ar y dinesydd.

Ochr yn ochr â rheolaethau gwariant, mae cyfle i gynnig cymhellion am fabwysiadu safonau ac egwyddorion trwy nodi gwasanaethau sy'n hollbwysig i:

- Gynllun gweddnewid digidol 'Cymru gyfan' e.e. gwasanaeth y gellir ei aildefnyddio ar draws sectorau yng Nghymru
- Profi sut y gellir defnyddio technolegau digidol i wella gwasanaethau e.e. defnyddio'r cwmwl
- Cydweithrediad gwasanaeth cynhwysfawr ar draws ffiniau e.e. iechyd, gofal cymdeithasol a thai

Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu buddsoddiad canolog ychwanegol i wasanaethau digidol newydd yn y meysydd hyn, megis y Carfannau a chymorth gan yr Hyb Cyflawni Digidol y cyfeirir ato yn Argymhelliad 4. Yn gyfnewid am hynny, rhaid i'r gwasanaethau alinio ag egwyddorion a safonau digidol a chyda'r llywodraethu digidol a gynigir yn y ddogfen hon.

Bydd hyn yn gyfle i ddangos gwerth y ffyrdd newydd o weithio ac ennill ymddiriedaeth y rhai sy'n gyfrifol am adeiladu gwasanaethau. Yn ogystal, byddai'n darparu llwybr ac yn dangos ymrwymiad i'r rhai sy'n buddsoddi mewn sgiliau digidol trwy ddatblygiad addysg a sgiliau.

Cam gweithredu:

- a. Datblygu strategaeth fuddsoddi ar gyfer digidol, gan gynnwys rheolaethau gwariant i gefnogi darpariaeth i safonau gwasanaeth cytunedig.
- b. Nodi a chytuno ar y rhestr o wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru a nodi'r rhai sy'n croesi ffiniau cyfrifoldeb presennol.
- c. Nodi ymgeiswyr posibl ar gyfer gweddnewid gwasanaethau ac amserlenni ar gyfer y ddarpariaeth gychwynnol.

Argymhelliad 6: Cytuno ar amserlen glir ac uchelgeisiol ar gyfer newid, gan ddangos cyflymder ac ehangder

Creu amserlen ar gyfer newid - gan ganolbwyntio ar yr hyn y byddwn yn ei wneud dros y 12 mis nesaf, ond bod yn ddyheadol am hyd at 5 mlynedd. Bod yn gydweithredol wrth ei datblygu ac yn dryloyw wrth ei hadrodd. Creu cynllun trywydd gydag arwyddion clir a chyfleoedd i ailwerthuso cynnydd ar gerrig milltir allweddol.

Dylai'r camau cychwynnol isod gael eu cymryd ar unwaith, a dylid adrodd ar gynnydd o fewn 6 wythnos i gytundeb. Y nod yw dangos cyflymder a chynnydd i adeiladu momentwm ac ymddiriedaeth.

	Cam gweithredu	Cwblhau erbyn mis Mehefin 2019	Cychwyn cyn mis Mehefin 2019
1a	Cael Gweinidogion i gytuno y dylai sector cyhoeddus Cymru fabwysiadu dull defnyddiwr yn gyntaf wrth ddylunio gwasanaethau cyhoeddus.	X	
1b	Cyfathrebu'r dull ar draws sector cyhoeddus Cymru, gan ddarparu cymorth ac arweiniad ar beth mae hyn yn ei olygu ar gyfer dylunio a chyflwyno gwasanaeth digidol.	X	
2a	Creu Prif Swyddog Digidol i Gymru	X	
2b	Penodi arweinydd digidol ym mhob sector neu gorff gwasanaeth cyhoeddus y gellir ei ddwyn i gyfrif am ddarpariaeth; rôl sy'n mynd y tu hwnt i fod yn hyrwyddwr digidol fel bod yr arweinydd yn cael ei rymuso gyda chaniatâd a chyfrifoldebau clir i wneud newid.	X	
2c	Ailbennu ac ail-lansio'r Fforwm Arweinwyr Digidol dan arweiniad Llywodraeth Cymru, i'w gadeirio gan y Gweinidog â chyfrifoldebau digidol a chydag arweinwyr digidol yn rhan ohono.	X	
2d	Creu grŵp cynghori sy'n adrodd i'r Gweinidog neu'r Prif Swyddog Digidol, y gellir galw arno i gefnogi a sicrhau darpariaeth ar draws y sector preifat. Dylai'r grŵp hwn gynnwys y rhai â phrofiad ac arbenigedd ar draws pob math o arbenigeddau sy'n ofynnol i sicrhau llwyddiant digidol.	X	

	Cam gweithredu	Cwblhau erbyn mis Mehefin 2019	Cychwyn cyn mis Mehefin 2019
2e	Gwneud safonau a rheolaethau digidol yn rhan annatod o lywodraethu presennol ym mhob corff gwasanaeth cyhoeddus.		X
2f	Galluogi'r grŵp hwn i gefnogi sicrwydd yn erbyn safon gwasanaeth sydd newydd ei chreu. (Gweler argymhelliad 3).		X
2g	Sefydlu gofynion i gefnogi darpariaeth a darparu adroddiadau gweladwy a thryloywder mewn perthynas â chynnydd.	X	
2h	Dylai'r Prif Swyddog Digidol newydd i Gymru ddrafftio Strategaeth Ddigidol newydd i Gymru a'i chyhoeddi, gan geisio cael adborth mewn ffordd agored a thryloyw, gan gynnwys trwy ymchwil defnyddwyr.	X	
2i	Dylunio a darparu yn erbyn strategaeth gyfathrebu ac ymgysylltu ar gyfer Digidol yng Nghymru.		X
2j	Dylai'r swyddogaeth arweinyddiaeth ganolog newydd weithio yn agored a dechrau siarad am y cynllun gweithredu a'r cynnydd a wneir. Peidiwch â disgwyl tan fydd gwasanaeth yn barod; ewch ati i hyrwyddo gwaith yr arweinydd digidol i Gymru, ynghyd â'i hyrwyddo fel unigolyn yn rhithwir trwy'r cyfryngau cymdeithasol ac ati, ynghyd â thrwy ddigwyddiadau a chyfleoedd siarad.	X	
3a	Datblygu cyfres o safonau gwasanaeth i Gymru, gan gyfeirio at Safon Gwasanaeth y Llywodraeth a Safon Gwasanaeth Digidol yn Gyntaf yr Alban, mewn cydweithrediad ag arweinwyr newid digidol y Sector Cyhoeddus.	X	
3b	Mabwysiadu'r safonau gwasanaeth hyn a sefydlu ar ba lefel y daw'r rhain yn ofyniad ar gyfer pob newid yn y sector cyhoeddus trwy bob cyfnod o'r cylch bywyd	X	
3c	Dylai'r gwasanaethau a ddarperir fod yn destun asesiad i sicrhau eu bod yn cyflawni'r safonau hyn. Gall Gweinidogion sbarduno ansawdd trwy gydymffurfio â'r safon. Dylai asesiadau gael eu cynnal gan aseswyr hyfforddedig a'u		X

	Cam gweithredu	Cwblhau erbyn mis Mehefin 2019	Cychwyn cyn mis Mehefin 2019
	hadeiladu ar sail rhwydwaith o gymheiriaid ar draws gwasanaethau cyhoeddus Cymru ond sy'n cael ei reoli a'i arwain gan y Grŵp Cyngori.		
3d	Nodi gwasanaethau lle mae'r cyfle i gydweithredu yn amlwg.	X	
3e	Datblygu datganiad digidol ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus Cymru.	X	
4a	Creu cronfa o arbenigwyr i gefnogi rhagoriaeth ddigidol ar draws sector cyhoeddus Cymru, gyda thimau'n cael eu dyrannu i lywodraeth leol, iechyd a llywodraeth ganolog, gyda Prif Swyddog Digidol sectorol yn bennaeth ar bob un, yn gweithio tuag at y Prif Swyddog Digidol i Gymru fel rhan o Hyb Cyflawni Digidol.		X
4b	Creu cymunedau o ymarfer i helpu i gefnogi cysondeb o ran cyflwyno galluogrwydd digidol ar draws sector cyhoeddus Cymru, gan rannu arferion da a methiannau.		X
4c	Adolygu tirwedd contractau TG ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru a nodi cyfleoedd i ddylanwadu ar alluoedd a ffyrdd newydd o weithio.		X
4d	Adolygu fframweithiau caffael am gyfleoedd i ddatblygu sgiliau a galluoedd digidol, gan osod targedau ar gyfer twf ym maes digidol a BBaChau.		X
4e	Creu llyfr chwarae ar gyfer ffyrdd o weithio, gan gynnwys ymchwil defnyddwyr, gweithio hyblyg yn yr agored ac ati yn seiliedig ar gydymffurfiaeth â'r safon gwasanaeth.	X	
4f	Creu strategaeth pobl i asesu sgiliau, galluogrwydd ac uchelgais ein gweithwyr sector cyhoeddus a darparu'r hyfforddiant a'r cymorth sydd eu hangen arnynt i gyflawni yn yr Oes Ddigidol.	X	

	Cam gweithredu	Cwblhau erbyn mis Mehefin 2019	Cychwyn cyn mis Mehefin 2019
4g	Adolygu atebolrwydd a llywodraethu ar gyfer gwasanaethau digidol cynhwysfawr fel rhan o'r broses o ddatblygu a lleoli gwasanaethau newydd.	X	
5a	Datblygu strategaeth fuddsoddi ar gyfer digidol, gan gynnwys rheolaethau gwariant i gefnogi darpariaeth i safonau gwasanaeth cytunedig.	X	
5b	Nodi a chytuno ar y rhestr o wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru a nodi'r rhai sy'n croesi ffiniau cyfrifoldeb presennol.	X	
5c	Nodi ymgeiswyr posibl ar gyfer gweddnewid gwasanaethau ac amserlenni ar gyfer y ddarpariaeth gychwynnol.		X
6a	Creu amserlen ar gyfer newid – gan ganolbwyntio ar yr hyn y byddwn yn ei wneud dros y 12 mis nesaf, ond bod yn ddyheadol am hyd at 5 mlynedd. Bod yn gydweithredol wrth ei datblygu ac yn dryloyw wrth ei hadrodd.	X	
6b	Creu cynllun trywydd gydag arwyddion clir a chyfleoedd i ailwerthuso cynnydd ar gerrig milltir allweddol.	X	

Atodiad 1: Y siwrnai ddiweddar


Mae llawer wedi cael ei ysgrifennu yn barod am gyflwr digidol yn sector cyhoeddus Cymru. Fel man cychwyn, mae'r panel hwn wedi penderfynu ailystyried y gwaith a wnaed dros y blynyddoedd diwethaf i ailasesu canfyddiadau adroddiadau eraill a deall pam nad oes llawer o gynnydd wedi'i wneud o ran eu rhoi ar waith.

Adolygiad David Jones

Yn 2015, adolygodd yr entrepreneur technoleg David Jones weithgarwch digidol ar draws llywodraeth leol Cymru. Daeth yr adroddiad, "[Pam y maen rhaid i Lywodraeth Leol droi digidol](https://gov.wales/docs/dsjlg/publications/localgov/151028-why-local-government-must-go-digital-cy.pdf)" <<https://gov.wales/docs/dsjlg/publications/localgov/151028-why-local-government-must-go-digital-cy.pdf>>, i'r casgliad bod byd digidol llywodraeth leol yn gymhleth a thameidiog, gyda hyd yn oed yr awdurdodau lleol lleiaf yng Nghymru â thros 100 o systemau ar wahân. Nododd fod llawer o gynghorau yng Nghymru ar ei hôl hi, gan nodi: "Man cychwyn y rhan fwyaf o gynghorau yn y trafodaethau oedd eu gwefannau. Teimlai nifer eu bod, drwy ail-ddylunio'u gwefannau, neu'n ychwanegu at yr hyn y gellir ei wneud ar eu gwefannau, yn dangos eu bod yn newid eu presenoldeb digidol yn sylweddol."

Daeth David Jones i'r casgliad bod arweinyddiaeth ddigidol ar y lefel uchaf yn gyfyngedig ac anghyson iawn, bod cynghorau'n rhy ddibynnol ar brynu atebion sector preifat a bod technolegau, methodolegau ac arferion gweithio 20 mlynedd ar ei hôl hi. Daeth o hyd i gonsensws ymhlith arweinwyr llywodraeth leol bod gormod o ffocws ar strategaeth a dim digon ar ddarpariaeth.

Daeth yr adroddiad o hyd i ddisgwyliad ymhlith Llywodraeth Leol y dylai Llywodraeth Cymru ddangos arweinyddiaeth ddigidol, ond roedd yna bryder oherwydd addewidion y byddai hyn yn digwydd yn y gorffennol. Daeth adolygiad Jones i'r casgliad nad oes gan lywodraeth leol Cymru unrhyw alluogrwydd sylweddol ar gyfer gweddnewid digidol, ac mae cydweithrediad ac arweinyddiaeth ar y cyd yn hollbwysig i ddatblygu gwasanaethau digidol ar raddfa fawr i ddatgloi arbedion a gwella gwasanaethau. Argymhellir y dylai Llywodraeth Cymru annog a galluogi Cynghorau yn hytrach na chyhoeddi mandad yn seiliedig ar Fframwaith Digidol Cymru sy'n canolbwyntio ar weithredu.



Awgrymodd yr adroddiad gamau gweithredu o dan bob pedair egwyddor graidd arfaethedig:

Cyflawni

Byddai angen tîm Gwasanaethau Llywodraeth Leol Digidol Cymru yn cynnwys yr arbenigedd canlynol:

Disgyblaethau TG

- Ymchwil defnyddwyr
- Datblygu meddalwedd
- Profi UX

Rheoli Gwasanaethau – sy'n bodoli eisoes ar draws llywodraeth leol:

- Gwasanaethau cymdeithasol
- Casglu sbwriel
- Trafnidiaeth
- Parcio

Arweinyddiaeth

Mae angen i'r ymgysylltu gofynnol fodoli ar draws pob lefel:

- Polisi
- Gwleidyddol (aelodau)
- Gweithredol (o'r Prif Swyddog Gweithredol i lawr)
- Technegol (rheolwyr TG presennol x 22)

Mae'n debygol y bydd ymrwymiad amser cychwynnol unrhyw dîm yn pwysu tuag at ymgysylltu dros dechnoleg

Sgiliau

Nid yw'r sgiliau sydd eu hangen i gyflawni gweddnewid digidol yn bodoli ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru. Bydd cymysgedd o wybodaeth bresennol a sgiliau newydd yn hollbwysig. O ystyried profiad GDS yn y gorffennol, bydd pwyslais ar ansawdd yn bwysig iawn.

Buddsoddiad


Bydd angen buddsoddiad i sbarduno newid gweddnewidiol. Fodd bynnag, dylai'r buddsoddiad hwn ganolbwyntio ar fuddsoddi mewn pobl ac uwchsgilio staff presennol. Nid oes unrhyw ofynion amlwg ar gyfer gwariant cyfalaf (ond gallant ymddangos wrth archwilio ymhellach... er enghraifft, meddalwedd gwerthwyr diwedd oes).

Amlinellodd yr adroddiad amserlen ar gyfer newid:

Cyfnod	Disgrifiad	Amserlen
1	<ul style="list-style-type: none"> • Defnydd digidol 100% mewn llawer o gymunedau a defnydd diofyn o gyfryngau cymdeithasol • Sector preifat yn mabwysiadu technoleg sector cyhoeddus Cymru • Cymru yn ymuno â'r D5 – llywodraeth ddigidol heb ei hail (yn 2015, mae 5 llywodraeth ddigidol heb eu hail ledled y byd. Erbyn 2020, bydd mwy – gallai'r D5 fod yn D20) 	2020
2	<ul style="list-style-type: none"> • Digidol ar waith ym mhob agwedd ar wasanaethau cyhoeddus • Cymru fel esiampl ddigidol • Efen gystadleuol yn adrannau Llywodraeth Cymru 	2019
3	<ul style="list-style-type: none"> • Digidol yn dominyddu polisi, darpariaeth a sgiliau sector cyhoeddus • Sector cyhoeddus fel cyflogwr o ddewis yng Nghymru • Defnydd eang o flogiau gan y gwasanaeth sifil 	2018
4	<ul style="list-style-type: none"> • Gwerthwyr a rhaeadr ddim yn opsiwn diofyn mwyach • Symudol fel opsiwn diofyn ar gyfer digidol sector cyhoeddus • Cynnydd yn y sgiliau digidol eang (datblygiad / ymchwil 	2017

Cyfnod	Disgrifiad	Amserlen
	defnyddwyr ac ati) <ul style="list-style-type: none"> • Arwyddion cyntaf o dechnolegau cyffredin ar draws sector cyhoeddus Cymru 	
5	<ul style="list-style-type: none"> • Arweinyddiaeth wleidyddol a gweithredol anghyson ar draws y gwasanaethau cyhoeddus • Technoleg a ddominyddir gan werthwyr • Cydweithrediad sy'n canolbwyntio ar broses yn hytrach na rhannu data 	2015

Nododd adolygiad Jones fod rhanddeiliaid yn codi'r cwestiwn ynghylch a ddylid ehangu ffocws ar ddigidol llywodraeth leol i gofleidio ac ystyried gwasanaethau cyhoeddus ehangach. Daeth i'r casgliad y dylai, yn enwedig o ystyried bod rhan sylweddol o'r gwaith, megis seilwaith, yn gyffredin ar draws yr holl wasanaethau cyhoeddus. Argymhellodd y panel ddull yn seiliedig ar dwf graddol sy'n canolbwyntio ar bedair egwyddor graidd, sef darpariaeth, arweinyddiaeth, sgiliau a buddsoddiad



Fel cam cyntaf, argymhellodd y panel y dylid sefydlu tîm bach gyda ffocws ar brosiect TG ar raddfa fawr y mae gan lawer neu bob un o'r awdurdodau lleol ddiddordeb ynddo. Yn hollbwysig, argymhellodd yr adroddiad y dylai'r gwaith o uwchraddio'r tîm gael ei raglennu o'r cychwyn.

Adroddiad Socitm

Ym mis Ebrill 2017, cyhoeddodd grŵp cynghori yr ymgynghorwyr digidol Socitm [ei ymchwil ar aeddfedrwydd digidol yn awdurdodau lleol Cymru](#). Aeth ati i asesu sut roedd Cynghorau'n perfformio yn y chwe 'dimensiwn digidol'.

O ran *trafodion digidol* – sef i ba raddau y gall dinasyddion wneud cais am wasanaethau o wefan yr awdurdod lleol – daeth Socitm i'r casgliad nad yw Cynghorau'n bodloni disgwyliadau'r cyhoedd. Nid yw unrhyw awdurdod lleol yn darparu trafodion cynhwysfawr, di-dor ar gyfer yr holl geisiadau gwasanaeth. Er bod modd ei gymharu â chynghorau mewn rhannau eraill o'r byd, nododd fod cyfeiriad awdurdodau lleol Cymru dros y pum mlynedd diwethaf yn fwy cyfnewidiol nag ydyw yn y DU yn gyffredinol, a'i fod wedi disgyn ar ei hôl hi o gymharu â phrofiad cwsmeriaid yn y sector preifat. Er bod gwefannau megis Amazon yn digideiddio'r holl broses siopa, gan gynnwys galluogi'r cwsmer i ddewis slot sy'n gyfleus iddo, addasu archeb, gwneud taliad a darparu adborth, mae cynghorau'n tueddu i ddigideiddio rhan o'r trafodion ar-lein, megis adrodd bod casgliad biniau wedi'i golli, ac mae gweddill y broses yn dal i fod ar bapur.

Asesodd Socitm *arweinyddiaeth ddigidol* awdurdodau. Nid oes gan y rhan fwyaf o Gynghorau Brif Swyddog Digidol, gyda llawer yn dal i gymysgu rhwng digidol a TGCh. Daeth i'r casgliad nad yw strategaethau digidol, lle maen nhw'n bodoli (nid oedd strategaeth o'r fath gan bron i chwarter o Gynghorau), yn manteisio'n llawn ar botensial yr agenda ddigidol. Nid yw Cynghorau'n manteisio'n llawn ar ddata dinasyddion i ddylunio gwasanaethau, nid ydynt yn defnyddio ymgysylltu digidol i gyd-gynhyrchu gwasanaethau ac nid yw defnyddio data agored yn cael ei ystyried yn flaenoriaeth nac yn cael ei ddefnyddio fel galluogwr allweddol. Daeth Socitm i'r casgliad nad oes digon o feincnodi gyda sefydliadau y tu allan i Gymru ac, er bod rhywfaint o arfer da, bydd rhagoriaeth ddigidol ond yn cael ei chynnal lle mae newid diwylliant, datblygiad sgiliau digidol ar bob lefel a strategaeth sydd ar waith ar draws pob lefel o awdurdod lleol.

Mae'r dymuniad i fod yn *Glyfar gyda Data* yn bodoli yn y rhan fwyaf o sefydliadau, ond mae'r lefel aeddfedrwydd data yn isel. Yn ôl Socitm, nid yw'r broses o wneud penderfyniadau pwysig yn seiliedig ar ddeallusrwydd yn amlwg ar draws y 22 awdurdod lleol. Mae cynghorau'n rheoli'r rhan fwyaf o'r data mewn seilos ac nid ydynt yn ei ddefnyddio'n effeithiol i sbarduno penderfyniadau a gwaith dylunio gwasanaethau cyflymach. Daeth yr ymchwil o hyd i ddymuniad sylweddol am fwy o waith ar gloddio data a diddordeb mewn datblygu pyrth cyfrifon dinasyddion sengl. Fodd bynnag, ni wirfoddolodd unrhyw awdurdod lleol i ddod yn rhan o gynllun peilot GDS (Gwasanaeth Digidol y Llywodraeth) ar gyfer system sengl i ddilysu pobl ar-lein, gan fod well ganddynt ddisgwyl am fersiwn fwy aeddfed o'r cynnyrch, Verify.

Dyluniad sy'n canolbwyntio ar y dinesydd, y pedwerydd dimensiwn digidol a archwilir gan yr adroddiad, yw lle mae gwasanaethau digidol yn cael eu dylunio o safbwynt yr hyn mae dinasyddion ei eisiau (yn hytrach na'r hyn mae'r awdurdod lleol yn credu sydd ei angen arnynt). Yn hytrach na chynnwys dinasyddion yn y gwaith o ail-ddylunio a newid prosesau o'r dechrau i'r

diwedd, mae Cynghorau yn canolbwyntio'n bennaf ar gyflawni arbedion tymor byr trwy symud rhai trafodion ar-lein (wedi'u caffael o werthwyr sector preifat yn aml). Ar ben hynny, yn wahanol i rannau eraill o'r DU, ychydig iawn o ddefnydd mae Cynghorau yng Nghymru yn ei wneud o fframwaith dylunio GDS oherwydd diffyg ymwybyddiaeth neu allu i ddefnyddio'r dull hwn.

Mae lefelau *allgau digidol* yn uwch yng Nghymru nag ydynt yn Lloegr, ac mae angen mynd i'r afael â hyn trwy fynediad (mentrau seilwaith rhwydwaith, yn ogystal â sicrhau bod cyfarpar ar gael), sgiliau, ysgogiad ac ymddiriedaeth i gynyddu lefelau cynhwysiant digidol. Yn ôl Socitm, mae hyn yn cael ei gydnabod yn eang mewn strategaethau awdurdod lleol ond, er gwaethaf ymdrechion i ddarparu mynediad at Wifi a chyfrifiaduron mewn adeiladau cyhoeddus, ynghyd â sesiynau dysgu digidol, mae lefelau allgáu digidol yn dal i fod yn uchel ar draws y rhan fwyaf o ardaloedd yng Nghymru. Daeth i'r casgliad bod mynd i'r afael â'r mater hwn yn uchelgais ddrud.

Y dimensiwn digidol olaf a aseswyd gan Socitm oedd *Staff Digidol*. Daeth yr adroddiad o hyd i ddiffyg tystiolaeth bod cynghorau yn gwneud sgiliau digidol yn rhan annatod o'u strategaethau gweithlu ac yn meddwl am yr angen am sgiliau a galluoedd digidol i'r dyfodol. Roedd llif gwaith wedi'i ddigideiddio yn bresennol, er nad oedd yn aeddfed, ac roedd y dull yn aml yn cael ei sbarduno gan strategaethau asedau eiddo i leihau nifer yr adeiladau yr oedd rhaid iddynt eu rheoli. Nid oedd digon yn defnyddio technolegau cwmwl, ac ychydig iawn o dystiolaeth oedd o awtomeiddio prosesau staff, megis cyflwyno treuliau, a'r defnydd o ddulliau digidol megis Facebook neu WhatsApp i gydweithredu. Dywedodd Socitm ei bod hi'n debygol y byddai cyfleoedd da ar gyfer digideiddio prosesau mewnol ymhellach, ond dywedodd 8 o'r 22 cyngor nad oedd ganddynt ddigon o gapasiti i fodloni eu gofynion digidol. Daeth yr adroddiad o hyd i rywfaint o frwdfrydedd ynghylch tîm canolog o arbenigwyr digidol y gellid ei rannu rhwng awdurdodau lleol i'w helpu i dyfu eu doniau eu hunain yn y maes hwn.

Daeth adroddiad Socitm i'r casgliad na fydd aeddfedrwydd digidol byth yn cael ei gyflawni oherwydd, wrth i bosibiliadau newydd amlygu eu hunain yn y farchnad, bydd unrhyw awdurdod nad yw'n datblygu yn disgyn i lawr yr ysgol aeddfedrwydd digidol. Yn ôl Socitm, nid yw ei ddefnydd posibl o ran lleihau gwasanaethau yn cael ei roi ar waith, ac mae angen i Gynghorau feddwl y tu hwnt i wefannau a gwaith digideiddio proses tameidiog er mwyn ychwanegu gwerth go iawn.

Fel rhan o'r prosiect ymchwil, cafodd pob Cyngor ei ganlyniadau ei hun o'r dull hunanasesu Aeddfedrwydd Digidol i adolygu ei gryfderau a'i wendidau ei hun, a chawsant eu hannog i hysbysu Llywodraeth Cymru ar argymhellion yr oeddent yn hynod frwdfrydig yn eu cylch. Nid yw hi'n glir a yw hyn wedi digwydd. Gwnaeth yr adroddiad gyfres o argymhellion hefyd:

Argymhellion tymor byr

Digwyddiadau digidol – digwyddiadau dysgu a rhwydweithio digidol sy'n targedu cynulleidfa o Brif Swyddogion Gweithredol a Chyfarwyddwyr, ynghyd ag arweinwyr ac ymarferwyr Digidol. Ni ddylai'r digwyddiadau hyn ganolbwyntio ar Gymru yn unig; dylid eu defnyddio i sbarduno meddwl yn ehangach a herio, gyda siaradwyr o fannau a sectorau eraill hefyd.

Byddai **sefydlu Hyb Digidol Rhithwir** (fforwm ar-lein ar gyfer trafod a rhannu dogfennau i ddod â'r awdurdodau lleol ynghyd o gwmpas yr agenda ddigidol a sefydlu blaenoriaethau ar y cyd) yn cefnogi mwy o ddigwyddiadau rhwydweithio digidol.

Cydweithredu wedi'i hwyluso – Mae angen galluogi mwy o gydweithredu ar draws yr awdurdodau lleol mewn meysydd megis:

- Llywio'r strategaeth ddigidol ar gyfer y genedl, gan helpu i lywio'r strategaeth Digidol yn Gyntaf.
- Datblygu pecyn cymorth digidol neu fabwysiadu safonau GDS.
- Sefydlu prosiectau blaenoriaeth; atebion data clyfar, cyfrif ar-lein, dilysu cyfrif ar-lein.
- Datblygu sgiliau digidol.

Ystyriaethau tymor hir

Mwy o systemau a rennir – Mae pob awdurdod lleol wrthi'n buddsoddi yn ei fentrau digidol ei hun. Gyda chyllidebau o dan bwysau a'r angen am arbedion, byddai strategaeth fuddsoddi yn cyflymu darpariaeth agenda ddigidol y genedl a chyfryngau mwy cyffredin a byddai gweithgareddau caffael cydgysylltiedig yn helpu i gyflymu'r agenda ddigidol ar draws yr awdurdodau lleol.

Atebion digidol tactegol – Gallai meysydd platfformau cyffredin yn y tymor canolig fod yn fuddsoddiad mewn un adnodd yn y meysydd canlynol:

- Atebion sgwrsio ar y we
- System e-bost sengl
- Systemau AD, Cyllid a Chyflogres
- Dull gwranddo a chyfrannu torfol ar y cyfryngau cymdeithasol

Seilwaith a chynhwysiant digidol – Mae cyflwyno band eang cyflym iawn "Cyflymu Cymru" yn alluogwr hollbwysig i'r agenda ddigidol. Fel gyda phrosiectau band eang eraill yn y DU, mae lleoliadau anodd eu cyrraedd yn broblem, lle mae'r seilwaith yn seiliedig ar yr hybiau ar y pafin, ond mae dinasyddion yn dewis peidio â'i gaffael eu hunain. Mae angen ystyriaeth bellach mewn perthynas â'r ardaloedd hynny na fydd ganddynt fand eang cyflym iawn; mae cynlluniau i fynd i'r afael â manau hebddo yn allweddol.

Barn dinasyddion am ddigidol – Mae gwir awch i ddarparu atebion cydweithredol ar gyfer rheoli data dinasyddion a chael barn dinasyddion. Yn ogystal â darparu gwell profiad digidol i ddinasyddion, mae'n gallu sbarduno gwasanaeth sydd wedi ei ddylunio'n well hefyd. Mae cyfle i archwilio hyn; i reoli hyn gyda data cyfunol ar lefel dinasyddion Cymru, yn hytrach nag ar lefel awdurdod lleol unigol. Gallai prosiect o'r fath leihau costau a darparu gwell syniad o farn

dinasyddion, gan fod llawer o ddinasyddion yn ddinasyddion mwy nag un awdurdod lleol. Gallai fod yn sail i ystorfa werthfawr o ddata agored. Tra'n sicrhau bod dinasyddion unigol yn parhau'n anhysbys, gallai data agored o'r fath lywio cynllunio ac adfywio o safbwynt y sector cyhoeddus a darparwyr masnachol. Byddai dull cydweithredol o gael barn dinasyddion, lleihau costau a sicrhau cysondeb yn cael ei groesawu gan y rhan fwyaf o'r awdurdodau lleol a fu'n cymryd rhan yn y gwaith ymchwil hwn.

Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru

Yn ei adroddiad ym mis Ionawr 2018, [Systemau Gwybodeg yn GIG Cymru](#), archwiliodd Swyddfa Archwilio Cymru berfformiad NWIS, Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru, o safbwynt darparu cofnod cleifion electronig dros y pedair blynedd flaenorol. Cafodd y weledigaeth hon ei disgrifio yn wreiddiol yn strategaeth 2003 Llywodraeth Cymru, *Hysbysu Gofal Iechyd* (ond heb ddyddiad terfyn), a'i hailystyried yn strategaeth 2015 ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol digidol, gan ddod i'r casgliad bod GIG Cymru yn dal i weithio tuag at y nod o ddarparu cofnod cleifion electronig cynhwysfawr. "Yn y degawd ers i GIG Cymru fabwysiadu ei hymagwedd gyntaf, mae'r farchnad wybodeg fyd-eang wedi newid yn sylweddol. Mae twf wedi bod mewn technoleg ffynhonnell agored, sydd ar gael i'w defnyddio a'i datblygu am ddim, a hefyd mwy o gydweithio rhwng gwahanol ddarparwyr cymwysiaid er mwyn sicrhau eu bod yn gallu cyfathrebu â'i gilydd."

Edrychodd Archwilydd Cyffredinol Cymru yn fanwl ar ddarpariaeth chwe phrosiect gan NWIS fel dangosyddion o'r ymagwedd ehangach at wybodeg ac, er bod y weledigaeth yn glir, bu oedi sylweddol o ran darparu'r prosiectau.

Sylwodd Swyddfa Archwilio Cymru bod NWIS yn dyrannu 10% o'i hadnoddau ar gyfer 'prosiectau' newydd, gyda'r gweddill wedi'u neilltuo ar gyfer systemau cenedlaethol presennol neu wasanaethau contract. O'r 30 o brosiectau yr oedd NWIS yn eu cyflwyno, dim ond saith oedd ar y trywydd iawn i gyrraedd y cerrig milltir o safbwynt amser.

Yn ôl Swyddfa Archwilio Cymru: 'Nid oes gan y Gwasanaeth Gwybodeg ffordd strategol glir o flaenoriaethu pa systemau newydd i'w cynnwys yn ei raglen nac o flaenoriaethu adnoddau i'r rheini sydd eisoes yn rhan ohoni.' Yn wir, sylwodd fod unrhyw ymdrech i flaenoriaethu yn arwain at fwy o flaenoriaethau fel arfer, nid llai.

Daeth yr Archwilydd Cyffredinol o hyd i lawer o rwystredigaeth yn GIG Cymru, gyda llawer o'r rhwystrau sydd wedi rhwystro cynnydd yn y gorffennol yn dal i gael eu hadrodd fel rhan o'i adolygiad. Roedd rhwystredigaeth ar ran y byrddau iechyd ac roedd NWIS yn cael effaith negyddol sylweddol ar y cysylltiadau rhyngddynt: "Gwelsom fod cyrff y GIG yn rhwystredig iawn wrth weld arafwch darparu'r systemau cenedlaethol. Soniodd staff y Gwasanaeth Gwybodeg hefyd am rywfaint o rwystredigaeth wrth weld diffyg cyfeiriad ac ymgysylltu yn eu barn hwy o du'r byrddau iechyd, yn enwedig clinigwyr, wrth ddylunio a lledaenu systemau newydd."

Daethpwyd o hyd i anghytundeb hefyd yn y GIG ynghylch beth mae'r egwyddor 'Unwaith i Gymru' yn ei olygu yn ymarferol. Yn ôl adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru: "Mae'r disgrifiad o Unwaith i Gymru a'r gallu i ryng-weithredu yn strategaeth 2015 yn amwys ac mae gwahanol ddehongliadau sy'n cystadlu â'i gilydd ar draws y GIG. Ar y naill law, barn rhai yw mai ystyr Unwaith i Gymru yw ei bod yn rhaid i bob sefydliad dderbyn systemau cenedlaethol a ddatblygir neu a gafaelir gan y Gwasanaeth Gwybodeg. Serch hynny, barn eraill yw bod y pwyslais ar y gallu i ryng-weithredu yn golygu y gall sefydliadau unigol ddatblygu neu gaffael eu systemau eu hunain, a bwrw eu bod yn gydnaws â'r systemau cenedlaethol a'r systemau mewn sefydliadau eraill."

Cafwyd anghytundeb pellach ynglŷn â phryd yn union yr ystyrir bod system wedi'i chyflawni, er enghraifft, mae NWIS o'r farn bod Porth Clinigol Cymru yn 'fyw', ond roedd byrddau iechyd yn adrodd bod meddygon yn teimlo ei fod yn anodd ei ddefnyddio, felly roeddent yn parhau i ddefnyddio atgyfeiriadau papur.

Daeth yr adroddiad o hyd i wendidau sylweddol yn nhrefniadau llywodraethu NWIS, gan gynnwys diffyg craffu annibynnol a llinellau atebolrwydd aneglur. Roedd adroddiadau cynnydd a pherfformiad i Lywodraeth Cymru a'r cyhoedd yn tueddu i fod yn rhannol ac yn rhy gadarnhaol.

Nododd yr adroddiad fod y GIG wedi bod yn tanfuddsoddi mewn capasiti digidol ers cryn amser. Yn 2003, roedd yr adolygiad annibynnol o'r GIG gan Syr Derek Wanless wedi argymhell y dylai'r GIG ledled y DU fod yn gwario 4% ar TGCh. Fodd bynnag, erbyn 2010-11 y cyfanswm gwariant ar TGCh ledled y GIG (gan gynnwys gan NWIS) oedd tua 2% o'r cyfanswm gwariant, gyda chyllideb NWIS ar gyfer 2016-17 yn dod i oddeutu 0.8% o'r gwariant ar iechyd (heb gynnwys dibrisiant).

Adolygiad Seneddol o Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru

Ar yr un pryd ag yr oedd Swyddfa Archwilio Cymru yn cyflwyno adroddiad, cyhoeddodd yr [Adolygiad Seneddol o Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru](#) ei adroddiad terfynol ym mis Ionawr 2018 hefyd.

Er ei fod yn nodi bod llawer i'w gymeradwyo ynghylch sefydlu trefniadau cydwasanaethau a seilwaith craidd a digidol yng Nghymru, nododd y panel arbenigol bryderon a rhwystredigaeth defnyddwyr a darparwyr gwasanaethau digidol yng Nghymru. Yn ôl yr adroddiad: "Mae'r gweithgarwch yn rhy wasgaredig ac wedi'i hystyngiadau ormod, ac nid oes ymrwymiad cyffredinol ynghylch gweledigaeth a chyfres o flaenoriaethau cydgysylltiedig. Ymhlith y prif bryderon mae heriau integreiddio (a ffocws y rhain yw'r angen am safonau cyffredin, a gallu data a systemau i ryngweithredu), llywodraethu gwybodaeth, materion yn ymwneud â diwylliant ac ymddygiad, a gallu a chapasiti cyfyngedig i gyflawni newid ac arloesi ar y cyflymder gofynnol."

Dan arweiniad Prif Swyddog Meddygol blaenorol Cymru, Dr Ruth Hussey, nododd Adolygiad Seneddol Cymru: "Mae gan Gymru wir gyfle i ddefnyddio'i hasedau technoleg a seilwaith yn well i gyflawni system ddi-dor wedi'i thrawsnewid." Amlinellodd ddeg argymhelliad ar gyfer newid, gan gynnwys 'Defnyddio arloesedd a chyflymu datblygiadau mewn technoleg a seilwaith' (Argymhelliad 7), ac amlinellodd gynigion manwl mewn atodiad i'r adroddiad.

Ei egwyddor graidd oedd y dylai pob datblygiad technolegol fod wedi'i seilio ar bedwar nod sy'n cefnogi'i gilydd – y 'Nod Pedwarplyg': a. gwella iechyd a llesiant y boblogaeth trwy ffocws ar atal; b. gwella'r profiad gofal i unigolion a theuluoedd, yn ogystal ag ansawdd y gofal; c. cyfoethogi llesiant, gallu ac ymgysylltiad y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol; a d. cynyddu'r gwerth a gyflawnir gyda chyllid iechyd a gofal, trwy welliant, arloesi, defnyddio arfer gorau, a chael gwared ar wastraff.

Amlinellodd y cynigion manwl canlynol ar gyfer newid:

- 'Progressing at pace', y prosiect Ecosystem Ddigidol a ddatblygir gan Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru (NWIS) a'r Hyb Gwyddorau Bywyd, sy'n darparu mynediad at gyfryngau a dadansoddiad i helpu NWIS a Technoleg Iechyd Cymru i gyflymu arloesedd a chefnogi mabwysiadu cynnyrch. Dylai'r ffocws fod ar fentrau sydd â'r effaith a'r cyrhaeddiad ehangaf posibl ac sy'n cynhyrchu'r canlyniadau mwyaf buddiol, a allai gael eu hehangu'n gyflym, sy'n cefnogi gofal unigol a chymunedol, a all gael eu hintegreiddio'n rhwydd ac sy'n cydymffurfio â safonau cyffredin.
- Dylai Llywodraeth Cymru, ynghyd â'r holl sefydliadau darparu gwasanaethau digidol a seilwaith yn y ddau sector, ailasesu eu blaenoriaethau strategol a'r cyfleoedd ar gyfer mwy o waith cydweithredol a chyfunol yng ngoleuni ei adroddiad. Dylai hyn gynnwys gwella a chyflymu'r Rhaglen Gofal a alluogir gan Dechnoleg, oherwydd mae'n bosibl y bydd y pwyslais yn troi at fentrau gofal sylfaenol, cymdeithasol a chymunedol a gofal a alluogir gan dechnoleg gysylltiedig.

- Egluro'r polisi 'Unwaith i Gymru', a chytuno ar feini prawf blaenoriaethu i'w defnyddio mewn perthynas â'r holl fentrau presennol a phosibl. Dylai hyn fod yn sail i adolygiad 'stopio, cychwyn, cyflymu' cadarn i ganolbwyntio ymdrechion yn well ar nifer fach o fentrau system allweddol sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr, gan gynnwys enghreifftiau rhanbarthol a lleol sydd ag 'addewid cenedlaethol'. Mae hyn yn gofyn am farn gyfunol wedi'i rhesymoli am y portffolio llawn o fentrau a alluogir yn ddigidol. Dylid rhoi blaenoriaeth i fentrau 'sylfaen' cenedlaethol craidd, gan gynnwys y Cofnod Cleifion Electronig (EPR), sef y porth i ddinasyddion a gweithwyr proffesiynol gael mynediad at ffynonellau gwybodaeth a gwasanaethau lluosog, a mentrau sy'n darparu buddiannau effeithlonrwydd sylweddol.
- Dylai safonau a phlatfformau cyffredin gael eu mandadu lle bo hynny'n bosibl ar draws y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol i gefnogi'r gallu i ryngweithredu ac integreiddio yn y dyfodol. Dylent archwilio'r cyfle i integreiddio a chryfhau systemau a seilwaith cenedlaethol, awdurdodau lleol, BILL ac Ymddiriedolaethau (a fydd angen model ariannu newydd i gyd). Dylai systemau etifeddol gael eu newid trwy gyfrwng Cynllun Diweddarau Seilwaith sy'n cyfateb i 'gynllun trywydd' cenedlaethol ar gyfer seilwaith, er na ddylid tanbriso'r her enfawr hon. Rhaid i ddiogelwch y seilwaith, systemau a gwybodaeth (sy'n cynnwys seiberddiogelwch) gael ystyriaeth lawn, gyda phrotocolau ac egwyddorion clir a chytunedig ar waith i fodloni'r holl ofynion cyfreithiol, rheoleiddiol a chynghorol, a chyda chynlluniau ymateb yn cael eu profi'n rheolaidd.
- Dylai Addysg a Gwella Iechyd Cymru (HEIW) oruchwylio datblygiad carfan o arweinwyr clinigol hyfforddedig a fydd, yn eu tro, yn gallu helpu i gryfhau ymdrechion i ddatblygu system dysgu iechyd a gofal ac arbenigedd gwella ansawdd. Dylai Gofal Cymdeithasol Cymru sicrhau hefyd bod hyfforddiant mewn sgiliau digidol yn cael blaenoriaeth. Gallai cynrychiolwyr Cyngor Gwybodeg Glinigol Cymru (WCIC) ddatblygu i fod yn grŵp arwain Prif Swyddogion Gwybodaeth Glinigol. Dylai timau rhaglen a phrosiect fod yn amlddisgyblaethol o'r cychwyn, gyda chyfraniad meddygol a gofal cymdeithasol priodol a mewnbwn gan ddefnyddwyr y system. Dylai defnyddwyr hyrwyddo ac arwain darpariaeth systemau newydd, gan gadw llygad barcud ar heriau newid mewn modd addasol (fel y nodir yn [adroddiad Wachter](#)).
- Dylai NWIS a NWSSP (Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru) fod â mwy o awdurdod a phresenoldeb cenedlaethol yn gysylltiedig â thîm gweithredol cenedlaethol cryfach, a dylent ystyried ymestyn y cydweithredu (e.e. e-ddysgu). Efallai nad yw'r trefniadau lletya ac atebolrwydd yn Ymddiriedolaeth Felindre yn briodol mwyach. Dylai Llywodraeth Cymru werthuso modelau amgen ar gyfer llywodraethu cenedlaethol cyfunol, gan gynnwys trefniant HEIW, ynghyd â phresenoldeb bwrdd llywodraethu ac uwch arweinyddiaeth y ddau sefydliad. Dylai hyn gynnwys ystyried dylanwadu ar gylich gwaith NWSSP i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus ehangach yng Nghymru, ond bydd angen newid deddfwriaethol er mwyn i NWSSP ddarparu gwasanaethau y tu hwnt i'r GIG.
- Dylai NWIS yn enwedig adolygu ac ail-gydbwyso ei broffil adnoddau fel bod gweithgareddau dylunio, datblygu a chymorth yn cael eu cyflwyno gyda'r cydbwysedd perffaith o staff digidol, iechyd a gofal cymdeithasol mewnol, gan gynnwys clinigwyr a staff rheng flaen, trydydd sector, trydydd parti, defnyddwyr y system, diwydiant a'r byd academiaidd. Dylent archwilio cyfleoedd i gyfuno a rhannu adnoddau TG BILLau, Ymddiriedolaethau a NWIS. Dylai Cymru edrych y tu hwnt i'w ffiniau cenedlaethol a manteisio ar gynghreiriau cydweithredol gyda chyrrff iechyd

enedlaethol eraill sydd ag agenda debyg, gan gynnwys NHS Scotland lle mae perthynas agos yn bodoli eisoes.

- Byddem yn cefnogi argymhellion y Tasglu Gwybodeg ac yn eu sgil Datganiad o Fwriad Llywodraeth Cymru i ddatblygu adnodd data cenedlaethol, gyda ffrydiau gwaith yn canolbwyntio ar lywodraethu gwybodaeth, adnodd data cenedlaethol, safonau gwybodaeth glinigol a datblygu'r gweithlu. Rhaid i systemau iechyd a gofal fanteisio'n llawn ar y gwerth mae data a gwybodaeth yn ei gynnig fel sail i systemau newydd, i sbarduno penderfyniadau, i wella ansawdd iechyd a gofal ac i fanteisio ar fentrau dadansoddi data a deallusrwydd busnes i'r dyfodol. Bydd hyn yn golygu y bydd angen i weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol gael tawelwch meddwl ynghylch cywirdeb, diogelwch a rhannu data, ac i ddinasyddion gael eu hysbysu'n llawn a'u bod wedi darparu cydsyniad priodol.
- Dylai NWIS gwblhau a rhannu ei egwyddorion dylunio, datblygu a gwasanaeth, gan gynnwys cyfleoedd datblygu hyblyg, ystyriaethau 'proses cyn technoleg', ail-ddylunio seiliedig ar dystiolaeth, cynhwysiant, cyfraniad defnyddwyr ac egwyddorion asesu buddiannau seiliedig ar ganlyniadau (er enghraifft, mae gan Gwasanaethau Digidol y Llywodraeth (GDS) gyfres o safonau gwasanaeth digidol).
- Dylai NWIS a NWSSP fabwysiadu proses achos busnes gyffredin a disgybledig fel sail i benderfyniadau blaenoriaethu a buddsoddi, yn rhannol i sicrhau bod mentrau yn ychwanegu gwerth, ac nid llwyth gwaith, i weithwyr proffesiynol a defnyddwyr Arloesi, Technoleg a Seilwaith y gwasanaeth. Dylai adolygiadau sicrwydd porth annibynnol ac adolygiadau buddiannau seiliedig ar ganlyniadau ar ôl gweithredu a 'gwersi a ddysgwyd' gael eu mandadu a'u rhannu, ynghyd â chysylltiadau mewnol clir i amlygu gwerth mentrau i staff, dinasyddion a defnyddwyr y system. Dylai'r NWIS a NWSSP fod â rolau arweiniol ar NWEHVIG (Grŵp Gwella Effeithlonrwydd a Gwerth Gofal Iechyd GIG Cymru) i helpu i wella cynhyrchiant, lleihau amrywiadau a gwastraff diangen a lledaenu arferion gorau (gan gynnwys argymhellion adroddiad Carter, lle mae NWSSP eisoes wedi ymgysylltu'n llawn â NWEHVIG).
- Deallwn fod strategaeth Iechyd a Gofal Gwybodus 2016-21 5 mlynedd NWIS yn gofyn am gyllid sylweddol ar gyfer Cymru gyfan. Os felly, mae blaenoriaethu ac arbedion technegol a dyrannol yn fwyfwy pwysig, a hoffem weld hyn yn cael ei egluro ac y deallir yr effaith y gall hyn ei chael ar y cyllid ar gyfer gwaith arall. Dylai Llywodraeth Cymru, NWIS a Chyfarwyddwyr Cyllid werthuso modelau ariannu amgen, gan gynnwys asesu'r cyfle i gyfuno ac integreiddio seilwaith, systemau ac adnoddau BILL, Ymddiriedolaethau ac NWIS, ac ail-fuddsoddi buddion arian parod o fentrau newid a defnyddio'r cymysgedd o ffynonellau cyllid cyfalaf a refeniw. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried a ddylai cronfeydd 'Unwaith i Gymru' craidd gael eu cyfuno a'u neilltuo yn hytrach na dyrannu is-set i BILLau. Rydym yn rhagdybio bod cofrestr asedau bresennol lawn ar gyfer GIG Cymru a phrosesau caffael a rheoli contractau proffesiynol ar waith.
- Dylai'r asesiad aeddfedrwydd digidol mewnol presennol gael ei ategu gydag asesiadau meincnodi presennol o NWIS a NWSSP a'u cymharu â sefydliadau cymheiriaid a'r 'goreuon yn y dosbarth' er mwyn tynnu sylw at gyfleoedd. Dylai hyn gynnwys elfennau proffilio adnoddau ac adborth rhanddeiliaid i wella cyd-gynhyrchu ac alinio.

Cymru Iachach: ein cynllun iechyd a gofal cymdeithasol

Yn ei hymateb i'r Adolygiad Seneddol, [Cymru Iachach: ein cynllun iechyd a gofal cymdeithasol](#), a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2018, cydnabu Llywodraeth Cymru rôl technoleg o ran canfod salwch yn gynharach, cefnogi gwell penderfyniadau clinigol a darparu gofal personol ac, yn lle aros i rywbeth fynd o'i le, bydd ein system yn defnyddio'r holl adnoddau sydd ar gael i sicrhau bod pethau'n iawn.

Fodd bynnag, ni aeth i'r afael â phob un o argymhellion penodol yr Adolygiad Seneddol.

Ailadroddodd Llywodraeth Cymru ei huchelgais i ddod â gwybodaeth gan wahanol ddarparwyr ynghyd ar blatfform integredig trwy gofnod cleifion electronig. Nododd yr ymateb y bydd bod â'r holl wybodaeth sydd ei hangen am yr unigolyn, neu grwpiau o bobl debyg, yn sicrhau gwell canlyniadau trwy helpu clinigwyr ar bob lefel i wneud gwell penderfyniadau".

Ymrwymodd i sicrhau darpariaeth gyflym yn lleol, ar draws sefydliadau ac yn genedlaethol. Dywedodd mai ei huchelgais yw darparu platfform digidol ar-lein i ddinasyddion er mwyn rhoi mwy o reolaeth i bobl a'u galluogi i ddod yn gyfranogwyr mwy gweithredol yn eu hiechyd a'u llesiant eu hunain. Yn ôl yr ymateb, bydd hyn yn helpu pobl i wneud dewisiadau gwybodus ynglŷn â'u triniaeth, eu gofal a'u cymorth eu hunain: gan ddod o hyd i'r gwasanaeth mwyaf priodol ar gyfer eu hanghenion, cyfrannu a rhannu gwybodaeth am eu hiechyd a'u gofal, rheoli apwyntiadau a chysylltiadau â gweithwyr proffesiynol a gweithio gydag eraill i gydgyssylltu'r gofal a'r driniaeth sydd eu hangen arnynt fel eu bod yn cael eu darparu'n ddi-dor.

Cydnabu bod technoleg ddigidol yn datblygu'n gyflym iawn, a disgwylir gweld cyfleoedd a heriau newydd gydol oes y cynllun hwn. Yn ôl yr adroddiad: "Nid oes modd rhagweld beth fydd y rheiny, ond byddwn yn fwy hyblyg yn ein hymateb i dechnolegau newydd fel deallusrwydd artifisial, dysgu peiriannau, meddygaeth fanwl a genomeg."

Daeth i'r casgliad:

"Byddwn yn buddsoddi i ddatblygu'r sgiliau angenrheidiol o fewn ein gweithlu ein hunain, er enghraifft i wneud gwell dewis o wybodeg glinigol ac ysgogi prosiectau trawsnewid digidol. Byddwn hefyd yn sicrhau bod ein pensaerniaeth ddigidol, a'r ffordd rydym yn gweithio'n ddigidol, yn fwy agored i'r byd mawr mewn ffyrdd sy'n cefnogi datblygu economaidd yng Nghymru, ac sy'n cynnig cyfleoedd gyrfa cyffrous, yn ogystal â gwella gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. I wneud hyn, rhaid i ni ganolbwyntio ein hymdrechion drwy ddull gweithredu 'Unwaith i Gymru' gan osod safonau a disgwyliadau a lle mae'n rhaid cael llwyfannau cyffredin a lle mae manteision clir o wneud hynny."

Ac amlinellodd cyfres o bwyntiau gweithredu mesuradwy:

Cam gweithredu	Dyddiad
----------------	---------

Cam gweithredu	Dyddiad
Cyflymu'r cynnydd tuag at bensaerniaeth ddigidol gwbl integredig yn genedlaethol, cyflwyno System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru a chreu llwyfan digidol ar-lein i ddinasyddion, wrth ochr gwasanaethau eraill sy'n orfodol yn genedlaethol.	O 2018 ymlaen
Buddsoddi yn y sgiliau sydd eu hangen arnom yn y dyfodol yn y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol, ac yn yr economi ehangach, i gyflymu newid digidol a sicrhau'r manteision mwyaf i gymdeithas ac economi Cymru.	O 2018 ymlaen
Datblygu dull 'plattform agored' ar gyfer arloesi digidol, drwy gyhoeddi safonau cenedlaethol ar gyfer y ffordd mae meddalwedd a thechnoleg yn cydweithio â'i gilydd, a sut gall partneriaid allanol weithio gyda'r plattform digidol cenedlaethol ac adnoddau data cenedlaethol.	O 2018 ymlaen
Cynyddu'n sylweddol y buddsoddiad mewn seilwaith, technolegau a gallu'r gweithlu digidol, gyda chefnogaeth trefniadau cyflawni ac arweiniad digidol cryfach yn genedlaethol.	O 2019 ymlaen
Sefydlu adnodd data cenedlaethol sy'n caniatáu rhannu gwybodaeth ar raddfa fawr yn ddiogel a phriodol.	O 2020 ymlaen

Adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Mae cyfyngiadau materion digidol yn GIG Cymru wedi ymddangos mewn cyfres o adroddiadau gan Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus trawsbleidiol y Cynulliad Cenedlaethol dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Wrth ymchwilio i broses arlwyio mewn ysbytai, yn ogystal â dulliau rheoli meddyginiaethau, mae'r pwyllgor wedi tynnu sylw at oedi o hyd at ddegawd ar gyfer cyflawni prosiectau TG. Yn dilyn adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ym mis Ionawr 2018 fe wnaeth y pwyllgor gynnal gwrandawiadau cyn cyflwyno adroddiad unfrydol, [Systemau Gwybodeg GIG Cymru](#), ym mis Tachwedd 2018.

Nododd yr adroddiad nad oedd y GIG yng Nghymru "yn dal yn gwbl barod o hyd i gydnabod yn agored faint a dyfnder y problemau". Dywedodd y pwyllgor ei fod yn bryderus iawn bod y gwaith o ddarparu systemau gwybodeg modern ar draws y GIG yng Nghymru mor araf; mae trefniadau cymorth a goruchwyllo'n dioddef oherwydd gwendidau sylfaenol, a - gan adleisio pryderon adroddiad cynharach gan Swyddfa Archwilio Cymru - ychwanegodd fod yna broblem ddiwylliannol a allai fod yn cuddio problemau ehangach a dyfnach.

"Mae gweddnewid digidol yn gofyn am ddiwylliant agored, a chanfu'r Pwyllgor bod diwylliant Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru yn wrthgyferbyniad llwyr i hyn. Rydym yn pryderu'n arbennig am y diffyg natur agored a thryloyw tybiedig ar draws y system gyfan... Mae'n bryder mawr ei bod yn ymddangos bod y meddylfryd hwn yn gyson â meddylfryd y byrddau iechyd, a thimau Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ochr yn ochr â Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru, oherwydd i'r Pwyllgor ganfod amharodrydd cyfunol i drafod yn agored y sefyllfa wirioneddol o ran cynnydd" meddai'r pwyllgor wrth agor ei adroddiad.

Daeth y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus i'r casgliad bod y ffordd yr oedd NWIS yn ceisio cyflawni ei brosiect sylfaenol, cofnod cleifion electronig llawn, yn hen ffasiwn. "Er bod gweledigaeth 2003 am gofnod cleifion electronig yn eglur, mae braidd yn hen erbyn hyn". Ac erbyn y bydd cofnod cleifion electronig llawn yn cael ei ddarparu, bydd systemau allweddol yn hen ffasiwn, meddai'r adroddiad. Nodir bod y prosesau a'r adnoddau ar gyfer adeiladu meddalwedd wedi datblygu'n aruthrol dros y 10 mlynedd diwethaf. Er enghraifft, roedd y gallu i gael gafael ar feddygon teulu drwy ffonau clyfar ac apiau'n cyferbynnu'n syfrdanol â My Health Online, rhaglen Meddygon Teulu y GIG yng Nghymru "sydd ddim yn sicrhau'r manteision a fwriedir" o bell ffordd.

Yn ychwanegol, mae datblygiad y cofnod cleifion electronig yn seiliedig ar gael systemau ar wahân gan nifer o gyflenwyr. Er bod hyn yn ddull dealladwy ddegawd yn ôl, (pan ddechreuodd y rhaglen) roedd y Pwyllgor yn bryderus iawn bod y GIG yn mynd yn fwyfwy dibynnol ar y sector preifat. "Gall creu ein systemau ein hunain fod yn well ateb na dim ond eu prynu trwy ymarferion caffael mawr" meddai'r adroddiad.

Roedd beirniadaeth ymchwiliad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn canolbwyntio ar sawl thema:

Arweinyddiaeth a Llywodraethu

Nid yw Llywodraeth Cymru a chyrrff y GIG wedi bod yn gleientiaid doeth i NWIS. O gofio bod Swyddfa Archwilio Cymru wedi canfod mai dim ond 7 allan o 30 prosiect NWIS oedd ar darged o ran eu hamserlen, mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru ystyried a all fod yn hyderus yng nghymhwysedd a gallu NWIS fel y mae ar hyn o bryd.

Er gwaethaf eu “hanfodlonrwydd amlwg ynghylch cynnydd”, dywedodd yr adroddiad nad oedd y pwyllgor wedi gweld “unrhyw dystiolaeth bod gweithredwyr bwrdd iechyd yn craffu ar waith Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru (yn wir roedd dryswch yn eu plith ynghylch sut byddent yn gwneud hyn).”

Nid yw llinellau adrodd Gwasanaeth Gwybodaeth GIG Cymru ar gyfer ei berfformiad yn glir. Nododd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus bod yna “ddryswch sylweddol ynghylch arweinyddiaeth gwybodeg yng Nghymru a dywedwyd yn ein tystiolaeth bod gan nifer o unigolion swyddogaethau a chyfrifoldebau arweinyddiaeth.”

Dywedodd y pwyllgor fod y GIG yng Nghymru ymhell y tu ôl i'r sector preifat o ran cael cynrychiolaeth gwybodeg ac arbenigedd TGCh ar lefel Bwrdd ac roedd cryn siom bod byrddau iechyd yn amharod i ystyried hyn. “Rydym yn deall y pwynt a wnaed gan Brif Weithredwr y GIG, y gall meysydd eraill gynnig dadl dros fwy o gynrychiolaeth ar lefel bwrdd a bod perygl bod ychwanegu mwy o bobl yn arwain at fwrdd sy'n rhy fawr. Fodd bynnag, mae gwybodeg mor hanfodol i ddyfodol gofal iechyd fel ein bod ni o'r farn bod y ddadl dros gynrychiolaeth gryfach ar y bwrdd yn rymus iawn erbyn hyn” meddai'r Pwyllgor

Cyfrifon Cyhoeddus.

Mae'n argymhell adolygiad o allu uwch arweinwyr o ran setiau sgiliau a llywodraethu yng Ngwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru a'r Tîm Digidol ehangach y GIG, “Ni chawsom ein hargyhoeddi bod gan uwch swyddogion Llywodraeth Cymru ac uwch weithwyr y GIG y ddealltwriaeth dechnegol fanwl sydd ei hangen i roi cyfarwyddyd eglur i Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru ac i herio ei berfformiad a'i benderfyniadau” meddai'r pwyllgor.

Cydnherthedd

Clywodd y Pwyllgor fod rhywfaint o'r seilwaith yng nghanolfannau data'r GIG dros saith oed a bod angen ei newid.

Roedd 21 o fethiannau i systemau cenedlaethol rhwng mis Ionawr a mis Gorffennaf 2018 - un bob 9 diwrnod. Argymhellodd y Pwyllgor y dylai Llywodraeth Cymru nodi amserlen glir ar gyfer sicrhau bod seilwaith digidol GIG Cymru yn sefydlog

Adroddodd NWIS ei fod wedi bod yn gweithio ar newid y seilwaith hwn dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Roedd £1.32 miliwn o gyllid wedi'i ddarparu gan Lywodraeth Cymru er mwyn uwchraddio seilwaith WLIMS (System Rheoli Gwybodaeth Labordai Cymru), uwchraddio storfa data a newid caledwedd sydd dros saith oed. Roedd y pwyllgor yn ystyried y cynnig gan Gyfarwyddwr NWIS i wario £6 miliwn ymhellach ar newid gweinyddion fel “taflu arian da ar ôl drwg, pan mai'r dewis arall yw newid y system bresennol i seilwaith Cwmwl modern”.

Daeth yr adroddiad i'r casgliad bod angen i NWIS ganolbwyntio mwy ar wneud gwaith cynnal a chadw arferol, ond ei fod yn cael trafferth ymdopi â'r tensiwn rhwng arloesedd cyllid a chynnal systemau etifeddol. “Mae'n sefyllfa heb fanteision i neb sy'n arwain at fwy o oedi cyn cael systemau newydd y mae wir eu hangen neu risgiau o ddigwyddiadau a methiannau difrifol. Talu'r hen a dwyn y newydd yw hyn i bob pwrpas, ac nid yw'n sefyllfa dderbyniol na chynaliadwy” yn ôl y Pwyllgor.

Daeth y dull hwn i'r amlwg gan brofiad CaNISC, system gyfrifiadur ar-lein ar gyfer Gwasanaethau Canser. Datgelodd y Pwyllgor fod gan CaNISC raddfa risg coch oherwydd bod Microsoft wedi rhoi'r gorau i gefnogi'r system yn 2014. Mynegodd tystion bryderon ei fod yn risg seibr-ddiogelwch gan fod yna waith ychwanegol o lenwi tyllau diogelwch a gosod patsys. Roedd y Pwyllgor yn bryderus ei fod wedi treulio cymaint o amser i gyrraedd y cam o gael achos busnes, pan ddylai fod wedi bod yn amlwg ers amser maith bod angen ei newid.

Daeth y Pwyllgor i'r casgliad bod y dystiolaeth a gafwyd ar fethiannau a chydnerthedd y gwasanaeth yn ficrocosm o'r darlun ehangach. "Mae cyllid yn brin ac mae Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru yn cydbwyso'r blaenoriaethau sy'n cystadlu o gynnal seilwaith tra dan bwysau i gyflwyno systemau newydd. Ceir pryderon dwys ynghylch y diffyg eglurder am atebolrwydd a chyfrifoldeb pan fydd pethau'n mynd o'i le ac unioni pethau eto. Clywsom am oediadau yng Ngwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru, yn yr achos hwn wrth gynhyrchu adroddiadau ar y digwyddiadau. Clywsom hefyd am anawsterau weithiau o ran cael cyrff GIG i ymgysylltu â Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru wrth ganfod achosion problemau. Rydym yn dal i bryderu nad yw'r problemau yn ymwneud â methiannau system wedi cael eu datrys yn llawn eto" meddai adroddiad y Pwyllgor.

Dywedodd y Pwyllgor nad oedd yn gweld unrhyw dystiolaeth sylweddol fod NWIS wedi defnyddio gwasanaethau Cwmwl, na'u bod yn deall y cyfleoedd yr oedd y Cwmwl yn eu cynnig. Dywedodd hefyd nad oedd yn gweld dystiolaeth ddigonol o ddealltwriaeth Dechnolegol neu Ddigidol dreiddgar, ac ychydig o dystiolaeth oedd ar gael bod manteision cyfrifiadura Cwmwl yn cael eu nodi'n llawn.

Cyllid a Chaffael

Dywedodd y Pwyllgor nad oedd yn credu y gellid cyflwyno cofnod cleifion electronig mewn amserlen resymol heb adnoddau ychwanegol sylweddol. Ychwanega: "Pan fyddwn yn dweud adnoddau ychwanegol, nid ydym o reidrwydd yn golygu arian newydd ar gyfer y GIG a fyddai'n mynd i wasanaethau cyhoeddus eraill fel arall. Un rhesymeg allweddol ar gyfer y cofnod cleifion electronig yw ei fod yn gwneud gwasanaethau yn fwy effeithlon ac yn lleihau camgymeriadau, sy'n gostus i'w cywiro. Mae angen i'r GIG yn ei gyfanrwydd gymryd golwg mwy hirdymor o fuddsoddiad mewn gwybodeg, ar sail buddsoddi i arbed".

Roedd y pwyllgor ar ddeall y byddai'r gost yn fras iawn o wireddu'r weledigaeth ymhob un o gyrff y GIG a chyfraniad NWIS i systemau cenedlaethol yn £484 miliwn yn ychwanegol at gyllidebau presennol, gyda £195 miliwn yn gyfalaf a £288 miliwn yn refeniw. O'r £484 miliwn hwn, nodir bod angen £196 miliwn ar NWIS, a bod y Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau'r GIG angen y gweddill. Roedd Llywodraeth Cymru yn derbyn argymhelliad yr Archwilydd Cyffredinol i gynnal dadansoddiad cost a budd llawn o'r buddsoddiad. Mae hyn yn cyd-fynd ag adolygiadau ehangach o'r dull cyffredinol o ran seilwaith, cynllunio systemau a blaenoriaethu.

"Mae Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru wedi'i or-ymestyn ar hyn o bryd ac mae gwella yn golygu llawer mwy na thywallt mwy o arian i mewn i'r sefydliad presennol, sy'n annhebygol o gyflawni canlyniadau sylweddol wahanol" meddai'r adroddiad.

Dywedodd y Pwyllgor y dylai Llywodraeth Cymru fod yn agored iawn wrth ystyried dewisiadau cyllid NWIS. "Mae'n amlwg bod angen symud oddi wrth CapEx tuag at fwy o gyllid refeniw. Hefyd, rydym o'r farn bod Digidol / TG yn dal i gael eu hystyried yn ganolbwynt cost, yn hytrach na chyfle i wella gofal a

phrofiad cleifion, a lleihau'r cyllidebau Gweinyddol a Chlerigol cyffredinol"gyda'r adroddiad hefyd yn dweud bod angen trefniant symlach a mwy tryloyw.

Yn ystod yr ymchwiliad, cytunodd Llywodraeth Cymru i fabwysiadu egwyddorion dylunio Gwasanaeth Digidol y Llywodraeth dan fwrdd safonau technegol Cymraeg newydd. Mae'r safonau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u mabwysiadu yn seiliedig ar egwyddorion y dull Ystwyth o ddatblygu gwasanaethau digidol. Fodd bynnag, cynhelir prosesau caffael law yn llaw â'r dull iteraid. Gall y 'model 5 achos' ar gyfer achosion busnes fod yn rhy gaeth gan ei fod yn cynnwys nodi popeth ymlaen llaw. Roedd y Pwyllgor yn croesawu'r gwaith y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud gyda'r GIG yn Lloegr a Thrysorlys y DU ar y ffordd y dylid addasu ei phrosesau ar gyfer achosion busnes er mwyn sicrhau y gellir manteisio'n llawn ar ddulliau digidol ac ystwyth o ddatblygu.

Gallu a Galluogrwydd

Dyweddodd y Pwyllgor fod angen rhwng 5 a 10 o arweinwyr newydd uwch ar NWIS, a bod angen i rôl Prif Swyddog Gwybodaeth GIG Cymru a Phrif Swyddog Gwybodaeth Glinigol GIG Cymru gael awdurdod ac amlygrwydd priodol o fewn y Gwasanaeth Iechyd.

Mae angen sicrhau bod yna le o fewn y system hefyd. Roedd byrddau iechyd yn cael eu beirniadu am beidio â sicrhau bod yna fwy o amser clinigol ar gael, fel y gallai clinigwyr gyfrannu at y gwaith o ddatblygu a phrofi systemau newydd; nodwyd bod adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol wedi dod i'r casgliad bod staff NWIS yn rhwystredig gyda'r anawsterau y maen nhw'n eu hwynebu wrth gael clinigwyr i gyfrannu. Fodd bynnag, ychwanegodd y Pwyllgor na ddylai pob rôl arweiniol gael ei llenwi gan grŵp bach o glinigwyr sydd â buddiant.

Roedd yr adroddiad yn nodi bod gallu a galluogrwydd NWIS dan fygythiad o ganlyniad i'r feirniadaeth barhaus yr oedd wedi ei chael yn yr adroddiadau a nodir uchod. Dywedodd y Pwyllgor fod y materion caffael wedi niweidio enw da a oedd "wedi effeithio ar ba mor ddeniadol yw Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru fel cyflogwr mewn marchnad ar gyfer sgiliau technegol a fydd bob amser yn gystadleuol iawn". Roedd y Pwyllgor yn dadlau y dylid ystyried ateb mwy radical. Nid yw llawer o waith Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru yn benodol i'r GIG (mae hyn yn cynnwys seiberddiogelwch, cyfrifiadura Cwmwl a phrosesau datblygu meddalwedd), mae llawer o'r gwaith hwn yn cael ei wneud ar draws yr holl wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, yn enwedig yn y de, yr ydym yn credu sydd â swyddogaethau Digidol uchel eu parch eisoes, fel y rhai yn y DVLA a'r Swyddfa Ystadegol Gwladol.

Argymhellion

1. Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus i dderbyn diweddariadau bob chwe mis gan Lywodraeth Cymru ar gynnydd wrth weithredu'r argymhellion digidol yn yr Adolygiad Seneddol ac adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol er mwyn gallu ailystyried y materion hyn yn ddiweddarach.
2. Argymhellodd y Pwyllgor y dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno amserlen eglur ar gyfer sefydlogi seilwaith digidol GIG Cymru.
3. Argymhellodd y Pwyllgor y dylid cynnal adolygiad o'r gallu uwch arweinyddiaeth o ran set sgiliau a llywodraethu yn NWIS a Thîm Digidol ehangach y GIG.

4. Mae angen i unrhyw gyllid ychwanegol a ddyrennir i NWIS fod yn gysylltiedig ag ad-drefnu i gyflawni'r gwelliannau sy'n ofynnol.

5. Rydym yn argymhell bod NWIS yn ceisio cynyddu ei waith gyda chyrff cyhoeddus eraill, gan gynnwys y rhai o Lywodraeth y DU. Gallai'r dull hwn weithio ar nifer o lefelau, o rannu arferion recriwtio da i greu Gwasanaeth Digidol Llywodraeth a allai weithio ar draws asiantaethau lluosog.

Atodiad 2: Cyfarfodydd

- Caren Fullerton, Prif Swyddog Digidol Llywodraeth Cymru
- Andrew Griffiths, Carwyn Lloyd-Jones, Alison Smith, Michelle Hall, Helen Thomas a Gary Willock, Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru
- Frances Duffy ac Ifan Evans, Arloesedd Iechyd, Llywodraeth Cymru
- David Hinchelwood Bove a David Dinsdale, Atos
- Chris Owen, Pennaeth Uned Dysgu Digidol, Llywodraeth Cymru
- Andy McDonough ac Hannah Robinson, CapGemini
- Avril Lewis, Chris Meadows a Christian Coates, ESTnet
- Dr James Chess, Chris Brownlee, Richard Evans, Gareth Howells ac Andrew Davis, Ysbyty Treforys
- Karen Jones a Steven John, Cyngor Castell-nedd Port Talbot
- Phil Bear, Rheolwr Gwasanaethau TGCh, Cyngor Dinas Caerdydd
- Matt Wintle, Yswiriant Admiral
- Dyfed Alsop, Awdurdod Cyllid Cymru
- Carl Taylor, Dŵr Cymru
- Jennifer Campbell, Kate Donaldson, Trish Quinn a Hugh Wallace, Gweddnewid Nawdd Cymdeithasol, Llywodraeth yr Alban
- Roger Halliday, Prif Ystadegydd, Llywodraeth yr Alban
- Katy McNeil, Rhaglen CivTech, Llywodraeth yr Alban
- Brian Hills, Data Lab, Llywodraeth yr Alban
- Colin Birchenall, Julie Kane, Llywodraeth Leol, Llywodraeth yr Alban
- Neil Frow, Andy Butler, Paul Thomas, Mark Roscrow a Dawn Benning, WSSP y GIG
- Yr Athro Philip Brown, Cadeirydd, Adolygiad Arloesi Digidol Llywodraeth Cymru
- Daniel Hurford, Dr Chris Llewelyn a'r Cyng Peter Fox, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
- Crispin O'Connell, Prif Swyddog Technegol, Llywodraeth Cymru
- Reg Kilpatrick, Cyfarwyddwr Llywodraeth Leol, Llywodraeth Cymru
- Ann Beynon, Tasglu'r Cymoedd
- Peter Sueref, Cyfarwyddwr Data Gwyddoniaeth, y DU. Nwy Prydain

Atodiad 3: Datganiad Digidol Lleol

Cyflwyniad

Mae'r [datganiad](#) hwn yn cadarnhau ein cyd-uchelgais o gael gwasanaethau cyhoeddus lleol yn oes y rhyngryd, a'n hymrwymadau i wireddu hyn. Mae'n ein hymrwymo i weithio ar raddfa newydd er mwyn:

- Cynllunio gwasanaethau sy'n diwallu anghenion dinasyddion yn y ffordd orau
- Herio'r farchnad dechnoleg er mwyn cynnig yr adnoddau a'r gwasanaethau hyblyg sydd eu hangen arnom
- Amddiffyn preifatrwydd a diogelwch dinasyddion
- Darparu gwell gwerth am arian

Ysgogwyd y gyd-fenter hon gan Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol y DU (MHCLG), Gwasanaeth Digidol y Llywodraeth (GDS), a chasgliad o awdurdodau lleol a chyrrff y sector o bob cwr o'r DU. Rydym yn gwahodd pob awdurdod lleol a'r sefydliadau rydym yn cydweithredu â nhw i ymuno â ni drwy [lofnodi'r Datganiad](#) ac ymrwymo i gyflawni'r cam cyntaf y gall pawb gael budd ohono.

Y cyfle hwn

Nid yw wedi bod yn bosibl erioed hyd yma ac i'r graddau yma i fedru cydweithredu mor effeithiol, darparu gwasanaethau ar draws cynifer o ffiniau a chraffu ar ein data yn y fath fanylder, i sicrhau arbedion mor sylweddol ac i ad-drefnu gwasanaethau cyhoeddus er lles pawb gan gadw sofraniaeth leol yr un pryd.

Mae gwaith rhagorol eisoes wedi ei wneud i drawsnewid ein gwasanaethau gan ddefnyddio adnoddau a thechnoleg ddigidol. Ond mae gennym gyfle i wneud mwy.

Ein huchelgais

Rydym yn dymuno mynd ati ar y cyd i greu amodau ar gyfer y genhedlaeth nesaf o wasanaethau cyhoeddus lleol, lle mae technoleg yn galluogi yn hytrach nag yn atal gwelliannau i wasanaethau, a lle mae defnyddio gwasanaethau'n brofiad braf i ddinasyddion a swyddogion. Gwyddom nad oes yna un ateb i bob dim, ond drwy feithrin a chymryd camau cyffredin, bydd awdurdodau lleol yn gallu adeiladu gwasanaethau'n gyflymach, yn hyblyg ac yn effeithiol. Dim ond yn y farchnad fwy agored a hyblyg hon y gallwn wireddu ein llawn potensial ar gyfer arloesedd.

Mae ein huchelgais yn golygu bod newid mewn diwylliant a thechnoleg yn hanfodol, ac rydym wedi cytuno ar 5 egwyddor er mwyn ein helpu i wneud hynny:

1. Byddwn yn mynd hyd yn oed ymhellach i ail-ddylunio ein gwasanaethau o amgylch anghenion y bobl sy'n eu defnyddio. Mae hyn yn golygu parhau i flaenoriaethu anghenion dinasyddion a defnyddwyr uwchlaw seilios proffesiynol, sefydliadol a thechnolegol.
2. Byddwn yn rhoi trefn ar bethau er mwyn rhoi'r gorau i ddibynnu ar dechnoleg anhyblyg a drudfawr nad yw'n cydgysylltu'n effeithiol. Mae hyn yn golygu ein bod am fynnu sylfeini

modwlar ar gyfer y TG rydym yn dibynnu arno, a safonau agored er mwyn rhoi strwythur cyffredin i'r data rydym yn ei greu.

3. Byddwn yn cynllunio ffyrdd diogel a defnyddiol o rannu gwybodaeth er mwyn meithrin ymddiriedaeth ymysg ein partneriaid a'n dinasyddion, er mwyn cefnogi'n well yr aelodau mwyaf agored i newid yn ein cymunedau, a thargedu ein hadnoddau'n fwy effeithiol.
4. Byddwn yn sicrhau bod arweinyddiaeth ddigidol yn rhan annatod o'n sefydliad, gan greu'r amodau ar gyfer gweddnewid y sefydliad go iawn, a herio pawb rydym yn cydweithio â nhw i groesawu'r Datganiad Digidol Lleol hwn.
5. Byddwn yn creu diwylliant agored sy'n gweld gwerth mewn ffyrdd digidol o weithio, sy'n cymhell hynny ac yn disgwyl hynny gan bob aelod o'n gweithlu. Mae hyn yn golygu gweithio yn agored pryd bynnag y gallwn, gan rannu ein cynlluniau a'n profiad, cydweithio â sefydliadau eraill ac aildefnyddio arferion da.

Ein hymrwymiaadau

Bydd MHCLG yn sefydlu tîm cyflawni i gefnogi pawb sydd wedi ymrwmo i'r Datganiad i wireddu'r uchelgais hon. Bydd ganddo rôl arweiniol o fewn llywodraeth ganolog, gan fod yn lladmerydd o blaid y dull a nodir yn y datganiad hwn. Bydd yn cydweithio â chynghorau fel partneriaid cyfartal er mwyn creu'r adnoddau a'r amodau i sicrhau diwygiadau, i ddarparu patrymau technegol cyffredin a llwybrau caffael ar gyfer gwasanaethau craidd. Ac, fel rhan o ymdrech gyfunol law yn llaw â rhwydweithiau llywodraeth leol, bydd yn helpu awdurdodau lleol i ddysgu mwy am brosiectau blaenoriaeth sy'n cefnogi'r genhadaeth hon ac yn cefnogi twf parhaus y gymuned ddigidol leol.

At hynny, bydd pob un sy'n llofnodi yn ymrwmo i'r gweithgareddau canlynol:

Bydd ein harweinwyr, ein rheolwyr gwasanaethau, ein haelodau bwrdd a'n gwleidyddion yn:

- Sicrhau bod arbenigedd digidol yn ganolog i'n prosesau gwneud penderfyniadau a bod yr holl benderfyniadau technoleg yn cael eu cymeradwyo gan yr unigolyn neu'r pwyllgor priodol. Bydd hyn yn sicrhau ein bod yn defnyddio ein pŵer prynu cyfunol i symud yn gyflym tuag at newid.
- Meddu ar arweinwyr gweladwy, hygyrch yn y sefydliad drwyddo draw (sy'n cyhoeddi blogiau, sy'n trydar ac sy'n cymryd rhan frwd mewn cymunedau ymarfer), a chefnogi'r rhai sy'n hyrwyddo'r Datganiad i roi cynnig ar bethau newydd a gweithio yn agored.
- Cefnogi ein gweithlu i rannu syniadau ac ymgysylltu â chymunedau ymarfer drwy ddarparu'r gofod a'r amser fel y gall hyn ddigwydd.
- Cyhoeddi ein cynlluniau a'r gwersi a ddysgwyd (er enghraifft ar flogiau, *Localgov Digital slack*; mewn cyfarfodydd sector), a siarad yn gyhoeddus am y pethau a allai wedi cael eu gwneud yn well (fel blog adrodd digwyddiadau GOV.UK).
- Rhoi cynnig ar bethau newydd, o adnoddau digidol i arbrofion mewn cydweithrediad â sefydliadau eraill.

- Hyrwyddo'r gwaith parhaus o wella arferion seibr-ddiogelwch er mwyn cefnogi diogelwch, cydnerthedd a didwylledd ein gwasanaethau a'n systemau digidol.

Bydd ein timau gweddnewid, technoleg gwybodaeth a digidol yn:

- Ymchwilio i'r ffordd rydym yn aildefnyddio ein gwaith ymchwil presennol ar ddefnyddwyr, sut caiff gwasanaethau eu dylunio, cydrannau cyffredin a safonau data a thechnoleg cyn dechrau cynllunio neu gaffael rhywbeth newydd.
- Adeiladu gallu i mewn i'r broses o ddylunio gwasanaethau, fel y gall pob gwasanaeth rydym yn ei weddnewid gael ei brofi'n anffurfiol gan ein cymheiriaid yn erbyn ein [safon gwasanaethau](#) cenedlaethol lle y bo'n briodol (Bydd GDS yn cyhoeddi fersiwn leol).
- Lle y bo'n briodol, mae'n rhaid i bob ateb TG sy'n cael ei gaffael gael ei weithredu yn ôl [cod ymarfer technoleg](#), gan ein rhoi ni mewn rheolaeth o ddata ein gwasanaethau, gan ddefnyddio safonau agored pan fyddant yn bodoli a chyfrannu at eu creu os nad ydynt yn bodoli.
- Rhannu gwybodaeth am brosiectau digidol pan fo cyfle i aildefnyddio neu gydweithredu ag eraill o bosibl.
- Cydweithio er mwyn sefydlu'r fframweithiau y gellir ymddiried ynddynt sy'n angenrheidiol i ni fel y gellir dadansoddi'n ddiogel a rhannu data personol. Bydd hyn yn ein galluogi i wasanaethu ein cwsmeriaid cyffredin yn well gan leihau'r angen i ofyn i ddinasyddion am yr un wybodaeth gant a mil o weithiau.
- Cydweithio er mwyn creu atebion cyffredin sy'n ein galluogi i wirio cymhwysedd pobl am wasanaethau gyda llywodraeth ganolog ac eraill mewn amser real a chyda'u caniatâd.
- Cael ysbrydoliaeth a syniadau gan amrywiaeth eang o ffynonellau, ac yn cymryd rhan yn unigol mewn cymunedau ymarfer a buddiant y tu allan i'r sefydliad (er enghraifft, [LocalGovCamp](#), [OneTeamGov](#) a rhwydweithiau a digwyddiadau cysylltiedig).